Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 7/2024

DYDDIAD CYHOEDDI: 24/01/24

# Model Ysgolion Rhithwir ar gyfer Addysg Integredig i Blant â Phrofiad o Ofal: Casglu Tystiolaeth Gychwynnol o Gynlluniau Peilot Awdurdodau Lleol.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-439-7

Teitl: Model Ysgolion Rhithwir ar gyfer Addysg Integredig i Blant â Phrofiad o Ofal: Casglu Tystiolaeth Gychwynnol o Gynlluniau Peilot Awdurdodau Lleol.

Awdur(on): Thomas Dunne a Dr Daniel Burley

Adroddiad Ymchwil Llawn: Dunne, T; Burley, D (2024). *Model Ysgolion Rhithwir ar gyfer Addysg Integredig i Blant â Phrofiad o Ofal: Casglu Tystiolaeth Gychwynnol o Gynlluniau Peilot Awdurdodau Lleol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 7/2024

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-model-ysgolion-rhithwir-casglu-tystiolaeth-gychwynnol

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: schoolsresearch@gov.wales

## Tabl cynnwys

Geirfa ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
Nodau ac Amcanion ..... 7
2. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion ..... 8
Prif ganfyddiadau ..... 8
Argymhellion ..... 10
3. Methodoleg ..... 11
Dadansoddiad o wybodaeth monitro ..... 11
Cyfweliadau â rhanddeiliaid ..... 12
4. Canfyddiadau manwl ..... 13
Trosolwg o weithrediad y model Ysgol Rithwir ..... 13
Astudiaeth Achos 1: Powys ..... 18
Astudiaeth Achos 2: Ynys Môn ..... 25
Astudiaeth Achos 3: Abertawe ..... 29
Astudiaeth Achos 4: Caerdydd ..... 33
Cyfeiriadau ..... 39
Atodiad A: Canllaw ar gyfer Cyfweld ..... 40

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Plant sy'n Derbyn Gofal (Foster et al. 2021) | Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. |
| Plant â phrofiad o ofal (Foster et al. 2021) | Mae'r term 'â phrofiad o ofal' yn gyffredinol yn cyfeirio at unrhyw un sydd wedi derbyn gofal neu sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, neu o gefndir derbyn gofal ar unrhyw gam yn eu bywydau, gan gynnwys plant sydd wedi'u mabwysiadu a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol. |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 I gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddfau Plant 1989 a 2004, mae gan awdurdodau cyfrifol ymarferydd arbenigol, sef Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, i gydlynu cynllun addysg y plentyn, ac i fynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol.

1.2 Caiff union rolau Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal eu diffinio gan awdurdodau lleol unigol, ac felly ceir amrywiaeth sylweddol mewn ymarfer ar draws awdurdodau lleol ledled Cymru.

1.3 Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, comisiynwyd Syr Alasdair Macdonald gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwaith cwmpasu'n canolbwyntio ar ddatblygu dull integredig ar draws Cymru i wella canlyniadau addysgol ar gyfer plant â phrofiad o ofal.

1.4 Roedd adroddiad Syr Alasdair (Macdonald, 2020) yn amlygu'r arfer da sy'n digwydd yng Nghymru, ond daeth i'r casgliad bod gormod o amrywiaeth yn y ffordd yr oedd awdurdodau lleol yn cefnogi plant â phrofiad o ofal.

1.5 Lluniodd yr adroddiad bum argymhelliad i wella canlyniadau addysgol plant â phrofiad o ofal, ac un o'r rhain oedd datblygu model Ysgol Rithwir yng Nghymru. Roedd yr argymhelliad hwn yn nodi y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei gwneud yn ofynnol o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru benodi Pennaeth Ysgol Rithwir a sefydlu model Ysgolion Rhithwir.

1.6 Dull gweithredu'r model Ysgol Rithwir yw gweithio gyda phlant â phrofiad o ofal (sy'n gallu cynnwys pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16), fel pe baent mewn un ysgol unigol, ac i wella cyrhaeddiad addysgol, cynyddu presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae'r ysgol yn un 'rhithwir' gan nad yw'n bodoli mewn sefydliad neu adeilad ffisegol; yn hytrach, mae'r plant yn mynychu'r ysgol neu'r lleoliad addysg y maent wedi'u cofrestru i'w mynychu, ac yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r lleoliad addysg hwnnw, ond mae pob agwedd ar eu lles a'u cynnydd yn cael eu monitro a'u cefnogi gan Bennaeth yr Ysgol Rithwir.

1.7 Pennaeth yr Ysgol Rithwir yw'r swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am wella presenoldeb a chanlyniadau addysgol plant â phrofiad o ofal ("eu disgyblion"), ond hefyd yn bwysig, i'w paratoi ar gyfer pontio i fywyd fel oedolion (Macdonald, 2020).

Mae gan Bennaeth yr Ysgol Rithwir drosolwg o ganlyniadau addysgiadol a gofal cymdeithasol plant â phrofiad o ofal, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a monitro strategaeth er mwyn cyflawni a gwella'r canlyniadau hyn. Mae Ysgol Rithwir felly yn adnodd sefydliadol a grëwyd er mwyn gallu cydlynu cymorth mewn addysg yn effeithiol i blant â phrofiad o ofal ar lefel strategol a gweithredol.

1.8 Mae Ysgolion Rhithwir yn statudol yn Lloegr ac yn cael eu defnyddio yn yr Alban. Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr benodi Pennaeth Ysgol Rithwir, at ddibenion cyflawni dyletswydd yr awdurdod i hybu cyrhaeddiad addysgol ei blant â phrofiad o ofal. Mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw fod yn swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol, neu lle bo awdurdodau lleol yn cytuno i gydweithio neu i rannu'r rôl, gan awdurdod lleol arall yn Lloegr (Macdonald, 2020).

1.9 Rôl Ysgol Rithwir yw:

- Dylanwadu ar bolisi a datblygu a gwella gwasanaethau ar gyfer plant â phrofiad o ofal.
- Hybu cyrhaeddiad, iechyd a lles unigolion.
- Darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, ysgolion a gofalwyr.
- Gwella mynediad at wasanaethau arbenigol, gan gynnwys asesiadau iechyd, asesiadau iechyd meddwl a thriniaethau.
- Darparu mynediad at gyngor ac arweiniad proffesiynol ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
- Hybu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu a hamddena y tu allan i'r ysgol.

1.10 Comisiynwyd IFF Research gan Lywodraeth Cymru (Foster et al. 2021) i gynnal ymchwil i bennu sut y gallai model newydd ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal adeiladu ar arfer da a systemau presennol yng Nghymru, sut y byddai modd cyflwyno model newydd yng Nghymru, ac effaith cyflwyno model newydd.

1.11 Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys rhanddeiliaid ac ymarferwyr gofal cymdeithasol ac addysg yn ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol, wyth arweinydd ysgol, pum person ifanc â phrofiad o ofal, yn ogystal â'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer cefnogi addysg plant â phrofiad o ofal, Cyfarwyddwyr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Consortia Addysg Rhanbarthol a'r Grŵp

Blaenoriaethau Addysg. Fe wnaethant hefyd gynnal adolygiad dogfennol o bolisïau ac arferion yng Nghymru ac yn rhyngwladol, yn ogystal â chwe astudiaeth achos manwl o awdurdodau lleol.

1.12 Nodwyd llu o arferion o fewn awdurdodau lleol a oedd yn cael eu hystyried yn dda ac a ddylai barhau yng Nghymru, megis casglu barn plant â phrofiad o ofal, casglu data ar ffactorau cymdeithasol ac emosiynol ehangach sy'n ymestyn y tu hwnt i ddata cyrhaeddiad, a'r gefnogaeth a roddir i ysgolion i'w cynorthwyo i fod yn fwy ymwybodol a pharod ar gyfer anghenion y plant â phrofiad o ofal yn eu hysgolion.

1.13 Nodwyd nifer o heriau allweddol o fewn systemau presennol awdurdodau lleol, gan gynnwys yr amrywiaeth o gefnogaeth a gynigir i blant â phrofiad o ofal gan ddibynnu ar ble maent yn byw ar unrhyw adeg benodol. Mae'r amrywiaeth leol hon mewn cefnogaeth yn peri ansicrwydd a diffyg cysondeb i blant â phrofiad o ofal, grŵp sydd eisoes yn profi llawer o ansicrwydd, yn ogystal ag i weithwyr proffesiynol sy'n gorfod gweithredu ar draws gwahanol systemau gan fod angen iddynt ymgysylltu'n rheolaidd gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol eraill.

1.14 Roedd heriau allweddol eraill yn cynnwys prinder ymgysylltiad uniongyrchol gyda phlant â phrofiad o ofal, ychydig iawn o enghreifftiau o ddathlu llwyddiannau plant â phrofiad o ofal ar lefel yr awdurdod lleol, diffyg mesurau canlyniadau sy'n canolbwyntio y tu hwnt i gyrhaeddiad academaidd, heriau gyda systemau data (megis cyrchu data ar gyfer plant mewn gofal mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal), ac amrywiaeth sylweddol yn strwythurau timau Cydgysylltwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, a chysondeb o ran cyllid.

1.15 Bu'r gwaith ymchwil yn gofyn barn rhanddeiliaid ar argymhelliad Syr Alasdair i 'bob Awdurdod Lleol yng Nghymru benodi Pennaeth Ysgol Rithwir a sefydlu Ysgolion Rhithwir'. Roedd barn ar yr argymhelliad i gyflwyno model Ysgolion Rhithwir yn gymysg. Roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod cwmpas Pennaeth Ysgol Rithwir yn debyg i rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, a chodwyd pryderon ynghylch sut y byddai rolau'r Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Pennaeth Ysgol Rithwir yn rhyngweithio, neu a fyddai rôl y Pennaeth yn disodli rôl y Cydgysylltydd, ynghyd â goblygiadau ariannol cyflwyno rôl newydd. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn teimlo y byddai cyflwyno model Ysgol Rithiol yn arwain at fwy o gysondeb gyda Lloegr a'r Alban, gan alluogi gwell cydweithio ar draws ffiniau, ac y gallai'r model Ysgol Rithwir alluogi gwell mynediad at adnoddau

arbenigol i blant â phrofiad o ofal, yn enwedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

1.16 Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, roedd yr adroddiad yn argymell yr egwyddorion a’r cydrannau gofynnol sy’n angenrheidiol er mwyn darparu dull integredig i wella canlyniadau addysgol plant â phrofiad o ofal. Yn seiliedig ar yr egwyddorion a’r cydrannau hyn, amlinellwyd nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru i greu’r amodau ar gyfer newid.

1.17 Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys comisiynu cynllun peilot i brofi gwahanol ddulliau o ‘arweinyddiaeth adferol’. Mae Arweinyddiaeth Adferol yn cyfeirio at arweinyddiaeth sy’n cael ei nodweddu gan lefel uchel o gymorth a her. Argymhellir y dylai’r peilot fod yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion cytûn fel sylfaen i ddull integredig, ac y dylai ganolbwyntio ar brofi rôl gyfwerth â Phennaeth Ysgol Rithwir. Byddai pob awdurdod lleol yn cael cyfle i ddiffinio ei ddull ei hun o ddiffinio’r weledigaeth strategol hon ac ar gyfer y rôl gyfwerth â Phennaeth Ysgol Rithwir mewn ffordd sy’n addas ar gyfer eu gofynion lleol.

1.18 Argymhellwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy holistaidd er mwyn archwilio ystod ehangach o fesurau ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Nesaf, roedd yr argymhellion yn amlinellu y dylai Llywodraeth Cymru adlewyrchu ar y mecanweithiau mwyaf effeithiol i sicrhau bod y cyllid angenrheidiol gan awdurdodau lleol i ariannu mentrau ac ymyriadau strategol, megis trwy’r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant â phrofiad o ofal. At hynny, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru annog mynediad mwy effeithlon i ddata perthnasol ar Blant sy’n Derbyn Gofal drwy annog rhannu data yn fwy agored rhwng awdurdodau lleol. Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru annog cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth drwy gyfathrebu arfer da ac ymyriadau’n seiliedig ar dystiolaeth rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru.

1.19 Yn seiliedig ar y gwaith ymchwil hwn, cytunodd y Gweinidog Addysg a’r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol symud ymlaen i weithredu dull integredig i wella canlyniadau i blant â phrofiad o ofal gydag awdurdodau lleol â diddordeb yng Nghymru, yn debyg i’r dull Ysgol Rithwir yn Lloegr a’r Alban. Cytunwyd ar gynllun peilot tair blynedd o’r model Ysgolion Rhithwir, o fis Mawrth 2021 tan fis Mawrth 2024. Cytunwyd y byddai pob awdurdod lleol yn gymwys i wneud cais am gyfanswm o £100,000 o gyllid grant.

1.20 Mae'r cyllid wedi cael ei ddyrannu dros gyfnod o ddwy flynedd - estynnwyd gwahoddiad i bob awdurdod lleol ymgeisio drwy broses o ddatgan diddordeb, am gyllid grant o £40,000 yn y flwyddyn gyntaf, a £60,000 yn yr ail flwyddyn. Bu panel a oedd yn cynnwys swyddogion Addysg a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Syr Alasdair Macdonald yn asesu ac yn penderfynu ar ganlyniadau'r ceisiadau a dderbyniwyd. Cafwyd ceisiadau llwyddiannus am gyllid gan 13 awdurdod lleol (o gyfanswm posibl o 22). Ar yr adeg y cynhaliwyd y gwaith ymchwil, roedd 8 awdurdod lleol wedi derbyn y cyfanswm o £100,000 yr un a 5 wedi derbyn cyllid am flwyddyn yn unig[1].

1.21 Darparwyd y cyllid i awdurdodau lleol llwyddiannus drwy Grant Addysg yr Awdurdodau Lleol ac yn unol â thelerau ac amodau penodol, sy'n adlewyrchu argymhellion adroddiad 2021. Roedd y rhain yn cynnwys ymgorffori rôl Pennaeth Ysgol Rithwir wrth ddatblygu'r Ysgol Rithwir, ac i ystyried cynaliadwyedd rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir y tu hwnt i oes cyllid y cynllun peilot. Gofynnwyd hefyd i awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ac arferion yn canolbwyntio ar bobl ifanc a llais y plentyn, i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael mynediad i ddata perthnasol er mwyn gallu cefnogi plant â phrofiad o ofal yn effeithiol, gan hefyd sicrhau cefnogaeth o'r dull Ysgol Rithwir newydd gan y rhanddeiliaid hyn. Yn olaf, gofynnwyd i awdurdodau lleol fonitro effaith ac effeithiolrwydd rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir a'r dull Ysgol Rithwir i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol.

### Nodau ac Amcanion

1.22 Nod y prosiect ymchwil hwn oedd archwilio gweithrediad cynllun peilot y model Ysgol Rithwir fel ymarfer casglu tystiolaeth gychwynnol, er mwyn datblygu trosolwg lefel uchel o'r gwahanol strwythurau, prosesau gweithredu, effeithiau canfyddedig a ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r model Ysgol Rithwir hyd yn hyn, ac i lywio unrhyw waith gwerthuso pellach ar y camau nesaf ar gyfer y model Ysgolion Rhithwir. Gall y wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn ganfod bylchau mewn tystiolaeth a llywio dull a chwestiynau ymchwil unrhyw waith gwerthuso pellach.

[1] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cyllid 2023-2024 wedi cael ei ddyrannu; o'r 5 awdurdod lleol a oedd wedi derbyn cyllid y flwyddyn gyntaf, roedd 4 wedi ymgeisio am gyllid yr ail flwyddyn ac roedd pob ymgeisydd yn llwyddiannus..

1.23 Er mwyn archwilio gweithrediad cynllun peilot y model Ysgol Rithwir, gofynnwyd y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio cyllid cyfnod peilot y model Ysgol Rithwir?
2. Beth oedd y prif ffactorau ar gyfer pennu sut y defnyddiwyd cyllid y cynllun peilot?
3. Pa lwyddiannau a rhwystrau a brofwyd gan awdurdodau lleol wrth weithredu'r model Ysgol Rithwir?
4. Beth yw'r effeithiau canfyddedig gan awdurdodau lleol o'u defnydd o gyllid y cynllun peilot?
5. A yw awdurdodau lleol yn ystyried Ysgolion Rhithwir yn fodel addas i gyflawni dull integredig ar gyfer plant â phrofiad o ofal mewn addysg?

## 2. Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion

### Prif ganfyddiadau

2.1 Ceir tri chategori eang ar gyfer y defnydd a wnaed o gyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir gan yr awdurdodau lleol a fu'n cymryd rhan. Yn y lle cyntaf, mae pum awdurdod lleol wedi defnyddio'r cyllid i gyflwyno system Ysgol Rithwir newydd neu wedi'i diwygio'n sylweddol; yn ail, mae pedwar awdurdod lleol wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu capasiti a gwella effeithiolrwydd eu systemau presennol ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal; ac yn drydydd, mae tri awdurdod lleol yng nghamau cynnar datblygu eu system Ysgol Rithwir.

2.2 Mae pum awdurdod lleol allan o ddeuddeg wedi penodi Pennaeth Ysgol Rithwir ac mae pedwar yn y broses o gynllunio ar gyfer penodi Pennaeth Ysgol Rithwir ar hyn o bryd. Ni ddarparwyd gwybodaeth gan un awdurdod lleol ynghylch Pennaeth Ysgol Rithwir. Mae'r Penaethiaid Ysgolion Rhithwir yn rheoli timau'n amrywio o ddau i ddeuddeg aelod, o athrawon cymwys i swyddogion gweinyddol, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant â phrofiad o ofal mewn addysg a gyda rhanddeiliaid allweddol neu'n cynnal systemau monitro. Mae strwythurau'n amrywio yn ôl amgylchiadau unigol.

2.3 Roedd ymatebion gan 11 o'r 12 awdurdod lleol yn amlinellu polisi ac ymarfer plant â phrofiad o ofal sy'n alinio, neu'n bwriadu alinio, gyda systemau cymorth anghenion dysgu ychwanegol (ADY), fel arfer drwy gyfuno neu ddatblygu systemau monitro data ar-lein ar gyfer y ddau faes. Roedd awdurdodau lleol sydd wedi buddsoddi mewn gwell systemau data ar gyfer plant â phrofiad o ofal yn disgrifio gwelliannau o ran effeithlonrwydd wrth gyrchu gwybodaeth monitro, rhannu data, a chwblhau cynlluniau addysg personol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

2.4 Mae pob un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan wedi defnyddio llais y disgybl, neu'n bwriadu gwneud hynny, i gyflawni eu dull gweithredu ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Mae enghreifftiau o ddulliau casglu llais disgyblion yn cynnwys casglu gwybodaeth ansoddol drwy astudiaethau achos, gweithgareddau ymgysylltu a Chynlluniau Addysg Personol. Roedd pum awdurdod lleol arall yn nodi eu bod wedi defnyddio polisi ac ymarfer 'ystyriol o drawma' i weithredu eu model Ysgol Rithwir. Adroddwyd bod dull yn seiliedig ar y disgybl wedi helpu i deilwra prosesau ac ymyriadau i ofynion penodol plant â phrofiad o ofal mewn addysg, sy'n helpu i fynd i'r afael â'r mater a nodwyd gan Foster et al. (2021) sef bod angen i awdurdodau lleol edrych y tu hwnt i ddata cyrhaeddiad wrth fynd i'r afael ag anghenion plant â phrofiad o ofal.

2.5 Fel rhan o ddatblygiad y model Ysgol Rithwir, mae awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau cryf gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig drwy ddigwyddiadau ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i ysgolion, gydag awdurdodau lleol yn nodi gwelliant mewn effeithlonrwydd prosesau ac ymyriadau ar gyfer plant â phrofiad o ofal.

2.6 Roedd cyfweleion o ddau awdurdod lleol yn disgrifio cynnydd mewn lefelau presenoldeb plant mewn gofal o ganlyniad i'r model Ysgol Rithwir, ac adroddwyd hefyd ei fod wedi cyfrannu'n gadarnhaol i leihad mewn gwaharddiadau o ysgolion. Nododd awdurdod lleol arall gynnydd yng nghanran y plant â phrofiad o ofal rhwng 2022 a 2023 sydd wedi aros mewn addysg prif ffrwd. Ar gyfer pob canlyniad, cafodd gwelliannau eu priodoli i gefnogaeth ddwys, wedi'i thargedu, gan ymarferwyr a chydweithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid eraill, a wnaed yn bosibl drwy'r model Ysgol Rithwir.

2.7 Un o'r prif rwystrau a nodwyd gan awdurdodau lleol rhag gweithredu'r model Ysgol Rithwir yw cyllid a'r ansicrwydd ynghylch parhad cyllid. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw cyllid y cynllun peilot yn talu am gostau cynnal yr Ysgolion Rhithwir, gyda

chostau staffio, prosiectau a systemau'n cael eu cefnogi gan gyllid craidd o gyllideb yr awdurdod lleol. Mae'r ansicrwydd ynghylch parhad cyllid cynllun peilot y model Ysgolion Rhithwir wedi cyfyngu cwmpas y modelau Ysgolion Rhithwir a ddatblygwyd gan rai awdurdodau lleol, ac mae eraill wedi rhoi staff ar gytundebau dros dro o ganlyniad. Mae costau datblygu'r model Ysgol Rithwir yn amrywio rhwng awdurdodau lleol o ganlyniad i nifer y plant â phrofiad o ofal a ffactorau daearyddol, sy'n arwain at fwy o heriau i rai awdurdodau lleol wrth ddatblygu eu modelau.

2.8 O ganlyniad i ystod o wahanol systemau a phrosesau, ychydig iawn o rannu data ac arferion ar gyfer plant â phrofiad o ofal mewn addysg a welwyd rhwng gwahanol awdurdodau lleol. Mae hyn yn ailadrodd y broblem o rannu data a nodwyd gan Foster et al. (2021), gan nodi bod angen mwy o ddatblygiad yn y maes hwn.

2.9 O'r pedwar awdurdod lleol a gafodd eu cyfweld, roedd pedwar o blaid parhau â'r model Ysgol Rithwir fel model statudol, parhaol, gyda chyllid wedi'i glustnodi ar ei gyfer. Roedd tri yn dweud eu bod o blaid datblygu cyfres gyfyngedig o ofynion y dylai pob awdurdod lleol eu dilyn er mwyn cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg fel rhan o hyn, gyda phosibilrwydd i awdurdodau lleol deilwra eu dull i fynd i'r afael â gofynion penodol plant â phrofiad o ofal yn eu rhanbarth.

**Argymhellion**

2.10 Dylid sefydlu grŵp ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg ar ffurf fforwm er mwyn galluogi pob un o'r 22 awdurdod lleol i rannu gwybodaeth am brosesau ac arferion da, a dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd yn ystod pob blwyddyn.

2.11 Pe byddai'r model Ysgol Rithwir yn parhau, cynigir yr argymhellion canlynol:

- Dylid ystyried gosod set sylfaenol o ofynion o ran prosesau ac arferion i bob awdurdod lleol, gyda chwmpas i bob awdurdod lleol addasu eu dull yn ôl eu hamgylchiadau lleol.
- Dylid datblygu un set o ddogfennaeth monitro i bob awdurdod lleol allu monitro gweithrediad y model Ysgol Rithwir yn fwy clir a chywir yn ddibynnol ar unrhyw werthusiad pellach o'r cynllun peilot.
- Archwilio datblygiad system ddata gyffredin i alluogi awdurdodau lleol i rannu data ac i hyrwyddo cyfathrebu a chefnogaeth fwy effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar draws ffiniau sirol.

- Dylid ystyried dull llyfn o ariannu'n seiliedig ar boblogaeth plant â phrofiad o ofal a heriau daearyddol i dargedu'r ardaloedd gyda'r angen mwyaf.

2.12 Dylai unrhyw werthusiad pellach o gynllun peilot y model Ysgol Rithwir gynnwys y canlynol:

- Casglu gwybodaeth ansoddol a meintiol gyson gan bob un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, yn ddelfrydol ar draws pob blwyddyn, i gael darlun llawn a chynhwysfawr o wariant (y gellir ei briodoli i gyllid y peilot a ffynonellau eraill), staffio, gweithredu, effeithiau a rhwystrau a brofwyd yn ystod y cynllun peilot.
- Archwiliad pellach o oblygiadau rhannu data a rhyngweithio ar draws ffiniau rhwng awdurdodau lleol a'r effaith ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg.
- Ymchwilio i'r prosesau ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg yn y naw awdurdod lleol sy'n weddill na fu'n cymryd rhan yn y cynllun peilot er mwyn rhoi dealltwriaeth lawn o'r gefnogaeth sydd ar gael i blant â phrofiad o ofal ar draws Cymru a llywio datblygiad polisi a chanllawiau at y dyfodol.

## 3. Methodoleg

3.1 Defnyddiwyd dau ddull o ymchwilio wrth fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil. Yn y lle cyntaf, defnyddiwyd dadansoddiad o wybodaeth monitro'r model Ysgol Rithwir gan awdurdodau lleol, ac yn ail, pedwar astudiaeth achos ar ffurf cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid o bedair Ysgol Rithwir.

**Dadansoddiad o wybodaeth monitro**

3.2 Cwblhawyd dadansoddiad o wybodaeth monitro gan awdurdodau lleol fel cam cyntaf i'r gwaith ymchwil. Cyflwynwyd gwybodaeth monitro ar gyfer blwyddyn 2022-23 gan awdurdodau lleol ym mis Mai 2023 fel un o'r gofynion er mwyn darparu diweddariad blynyddol i Is-adran Tegwch mewn Addysg Llywodraeth Cymru ar sut y defnyddiwyd cyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir. Darparodd pob un o'r 12 awdurdod lleol a oedd wedi derbyn cyllid yn 2022-23 fel rhan o gynllun peilot y model Ysgol Rithwir wybodaeth monitro. Ni chyflwynwyd gwybodaeth monitro gan un awdurdod lleol a dderbyniodd gyllid yn 2021-22 ond nid yn 2022-23. Nid oedd gwybodaeth monitro o 2021-22 ar gael yn ystod y gwaith ymchwil, heblaw gan un awdurdod lleol a ddarparodd ddadansoddiad o wariant ar gyfer blwyddyn 2021-22. Felly, roedd y dadansoddiad ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar wybodaeth o 2022-23.

3.3 Gan fod y wybodaeth monitro'n cynnwys adborth ansoddol yn bennaf, defnyddiwyd dadansoddiad templed thematig (King et al.2019) i'w dadansoddi. Crëwyd templed o'r themâu yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil ac yn gysylltiedig â phob awdurdod lleol. Cafodd y wybodaeth ei chodi, gyda'r strwythur yn destun adolygiad parhaus drwy gydol y dadansoddiad i ganiatáu deunydd ychwanegol o ddiddordeb.

3.4 Cafwyd nifer o gyfyngiadau gyda'r wybodaeth monitro. Nid oedd unrhyw fformat safonol ar gyfer y ffurflenni monitro, a derbyniwyd ystod eang o fformatau, gan arwain at wahaniaethau yn y math o wybodaeth a roddwyd a faint o fanylion a ddarparwyd. O ganlyniad, nid oedd modd cynnal dadansoddiad manwl o wariant, staffio, gweithrediad ac effaith rhwng awdurdodau lleol, gan gyfyngu'r dadansoddiad i drosolwg lefel uchel. Yn ogystal, ni ddarparwyd gwybodaeth monitro ar gyfer 2021-222, felly nid oedd yn bosibl archwilio gwariant a gweithrediad ar draws blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y cynllun peilot.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid**

3.5 Cynhaliwyd pedwar cyfweliad ansoddol lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid o bedwar awdurdod lleol yng Nghymru a oedd wedi derbyn cyllid fel rhan o'r cynllun peilot Ysgolion Rhithwir. Roedd y cyfranogwyr yn Benaethiaid Ysgolion Rhithwir, ac mewn un cyfweliad, bu arweinydd cyllid y Grant Datblygu Disgyblion hefyd yn cymryd rhan ar y cyd â'r Pennaeth Ysgol Rithwir i ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r cyfranogwyr hyn naill ai wedi arwain neu wedi ymwneud yn uniongyrchol â gweithrediad cynllun peilot y model Ysgolion Rhithwir yn eu hawdurdodau lleol eu hunain.

3.6 Cafodd y sampl ei recriwtio drwy'r rhwydwaith o gysylltiadau o fewn yr awdurdod lleol a gedwir gan Gangen Hawliau Plant a Phobl Ifanc mewn Addysg Llywodraeth Cymru fel rhan o gynllun peilot y model Ysgol Rithwir.

3.7 Dewiswyd y sampl o'r awdurdodau lleol i adlewyrchu gwahanol ardaloedd daearyddol yng Nghymru, yn ogystal â dulliau a chamau'r model yn ei ddatblygiad. Mae'r sampl hefyd yn adlewyrchu ardaloedd trefol gyda dwysedd uchel o blant â phrofiad o ofal, ac ardaloedd mwy gwledig gyda dwysedd is o blant â phrofiad o ofal, megis Ynys Môn a Phowys.

3.8 Cyn casglu data, crëwyd canllaw cyfweld mewn cydweithrediad â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil. Mae'r canllaw terfynol ar gyfer y cyfweliadau ar gael yn **Atodiad A**.

3.9 Cynhaliwyd y cyfweliadau ym mis Gorffennaf 2023 dros Microsoft Teams. Cafodd y cyfweliadau eu recordio gan ddefnyddio meddalwedd trawsgrifio awtomatig o fewn Microsoft Teams a'u harchwilio a'u cywiro ar ôl y cyfweliad.

3.10 Defnyddiwyd dadansoddiad templed thematig (King et al. 2019) i ddadansoddi data'r cyfweliadau. Crëwyd templed o themâu yn seiliedig ar gwestiynau'r gwaith ymchwil, a chafodd y data ei godio yn unol â'r themâu hyn, gyda'r strwythur yn destun adolygiad parhaus wrth i'r dadansoddiad fynd rhagddo i ganiatáu ar gyfer deunydd ychwanegol o ddiddordeb. Roedd y dull hwn yn caniatáu i'r un strwythur gael ei ddefnyddio yn y dadansoddiad rhwng y pedwar astudiaeth achos, gan hwyluso'r gwaith cymharu wrth gyflwyno'r data. Cafodd data'r cyfweliadau ei driongli drwy gymharu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflenni monitro perthynol ar gyfer pob awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan.

3.11 Defnyddiwyd y data i amlinellu'r dulliau a'r modelau cefndirol i gefnogi plant â phrofiad o ofal cyn cynllun peilot y model Ysgol Rithwir ym mhob un o'r pedwar awdurdod lleol, defnydd cyllid y model Ysgol Rithwir yn yr awdurdod lleol, llwyddiannau a rhwystrau rhag gweithredu, effeithiau canfyddedig y model Ysgol Rithwir, a gweledigaethau a barn ynghylch dyfodol y model Ysgol Rithwir.

3.12 Roedd nifer yr astudiaethau achos manwl yn gyfyngedig oherwydd yr amser a oedd ar gael, a dylid dehongli'r canfyddiadau gyda hynny mewn golwg.

## 4. Canfyddiadau manwl

### Trosolwg o weithrediad y model Ysgol Rithwir

4.1 Mae'r adran hon yn seiliedig ar y wybodaeth monitro a gyflwynwyd gan y deuddeg awdurdod lleol a dderbyniodd gyllid ar gyfer blwyddyn 2022-23, i ddarparu trosolwg lefel uchel o'r gwahanol strwythurau, prosesau gweithredu, effeithiau canfyddedig, a ffactorau eraill perthnasol fel rhan o'r model Ysgolion Rhithwir hyd yn hyn.

### Gwariant a gweithredu

4.2 Darparodd 10 o'r 12 awdurdod lleol (heb gynnwys yr un awdurdod lleol nad oedd wedi derbyn cyllid yn 2022-23) ddadansoddiad o wariant cyllid y model Ysgol Rithwir ar gyfer blwyddyn 2022-23, a dim ond un awdurdod lleol a roddodd ddadansoddiad ar gyfer blwyddyn 2021-22. O'r rhain, gellir nodi tri chategori eang o ran blaenoriaethu gwariant. Hynny yw, defnyddiwyd y cyllid ar gyfer y canlynol:

- Creu dull newydd neu ddull wedi'i ddiwygio'n sylweddol ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal.
- Gwella systemau presennol ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal.
- Archwilio a datblygu gweithgareddau cyn cyflwyno model Ysgol Rithwir.

4.3 Ar gyfer pob un o'r tri chategori, gellir gweld enghraifft fanwl yn yr adran Astudiaethau Achos isod. Dylid nodi nad yw'r categorïau hyn o reidrwydd yn unigryw, gyda rhywfaint o orgyffwrdd o ran dull a/neu amgylchiadau rhwng awdurdodau lleol.

4.4 **Creu dull newydd ar gyfer eu model Ysgol Rithwir newydd:** Defnyddiodd pump o'r awdurdodau lleol gyllid y cynllun peilot i ddatblygu systemau newydd, neu dra gwahanol, ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal. Roedd y prosesau hyn yn amrywio yn ôl anghenion yr awdurdodau lleol unigol, ond mae cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i benodi staff i greu Ysgol Rithwir, megis Pennaeth Ysgol Rithwir ac ymarferwyr. Er enghraifft, yn 2022-23, gwariodd un Ysgol Rithwir y cyllid i ariannu Mentor Addysg,  Swyddog Perfformiad, a dau weithiwr cymorth dysgu. Nod y rolau hyn yw adnabod anghenion dysgu, darparu ymyriadau o ansawdd uchel, datblygu dulliau rheoli data a rheoli ansawdd, datblygu pecynnau cymorth wedi'u teilwra, casglu llais y dysgwr, gweithio gyda staff addysgol a rhieni a gofalwyr i roi cymorth, a mwy. Ceir dulliau tebyg mewn awdurdodau lleol eraill yn y categori hwn, gyda ffocws ar ddefnyddio cyllid y cynllun peilot i benodi neu i ddarparu cymhorthdal ar gyfer rolau staffio i gyflawni gofynion cefnogaeth i blant â phrofiad o ofal mewn addysg. Am enghreifftiau manwl o system Ysgol Rithwir sydd newydd ffurfio (gweler **Astudiaeth Achos 1: Powys**, ac **Astudiaeth Achos 2: Ynys Môn**).

4.5 **Gwella systemau presennol:** Defnyddiodd pedwar awdurdod lleol gyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir i wella systemau presennol, yn hytrach na datblygu gwahanol system i'r broses a ddefnyddiwyd cyn y cynllun peilot. Mewn dau achos, mae elfen allweddol o'r gwariant wedi canolbwyntio ar fireinio systemau monitro data ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Mae hyn wedi eu galluogi i ganolbwyntio mwy ar 'ddata o ansawdd uchel', cwblhau Cynlluniau Addysg Personol ar-lein (cofnod ysgrifenedig a chynllun addysg a hyfforddiant ar gyfer pob plentyn â phrofiad o ofal), a data addysgol megis presenoldeb mewn addysg, cyrhaeddiad, gwaharddiadau a symud ysgolion. Ni roddodd un o'r awdurdodau lleol ddadansoddiad o'r costau, ond fe amlinellodd yr awdurdod lleol arall sut y bu iddynt gyflawni hyn drwy ariannu

capasiti ychwanegol ar gyfer Pennaeth yr Ysgol Rithwir a chymorth gweinyddol, a datblygu system fonitro newydd. Mae hyn yn dangos ffocws ar gapasiti staffio fel modd o wella systemau presennol. Mae'r ddau awdurdod lleol sy'n weddill yn y categori hwn wedi mabwysiadu dull gwahanol, gan ddefnyddio cyllid y cyfnod peilot i fuddsoddi mewn system ddata newydd a luniwyd i wella eu system bresennol o gefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg. Mae'r ddau awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn system o'r enw CACI Impulse a ddarperir gan gwmni technoleg gwybodaeth CACI Ltd., a ddefnyddiwyd yn y gorffennol i gydlynu cymorth ADY. Mae'r system newydd yn ymgorffori'r gallu i dracio a monitro data plant â phrofiad o ofal i'r system hon, gan integreiddio'r dulliau ar gyfer plant â phrofiad o ofal ac ADY. Roedd y costau'n ymwneud â datblygu meddalwedd, profi a hyfforddiant i staff, a'r unig wariant parhaus a ragwelwyd oedd y costau cynnal a chadw blynyddol. Gyda'r dull hwn, mae cyllid cyfnod peilot y model Ysgol Rithwir wedi cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell ariannol benodol i gyflwyno seilwaith a fyddai'n cefnogi dull hirdymor o gefnogi plant â phrofiad o ofal (gweler **Astudiaeth Achos 3: Abertawe**).

4.6 **Gweithgareddau cwmpasu a datblygu:** Gellir ystyried bod modelau Ysgolion Rhithwir y tri awdurdod lleol sy'n weddill ar gamau cynt yn eu datblygiad. Er enghraifft, yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun peilot, gwariodd un awdurdod lleol y cyllid yn 2022-23 mewn dau faes, cynllunio a recriwtio Pennaeth Ysgol Rithwir, a datblygu dulliau o gydweithio a chydlynu gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r awdurdodau lleol sy'n weddill ar gamau tebyg yn y broses, yn edrych ar syniadau ar gyfer y model Ysgol Rithwir, gydag un wedi cwrdd â rhanddeiliaid o Ysgolion Rhithwir sydd eisoes wedi sefydlu yn yr Alban a Lloegr i gasglu gwybodaeth a datblygu perthnasau cyn sefydlu eu hysgol rithwir eu hunain. Dywedodd un awdurdod lleol bod system bresennol ar waith sy'n cefnogi plant â phrofiad o ofal a allai gael ei datblygu yn y dyfodol, ond ni roddwyd eglurhad manwl yn y wybodaeth monitro. Gellir darllen enghraifft fanwl o fodel Ysgol Rithwir ar gamau cynnar ei ddatblygiad yn **Astudiaeth Achos 4: Caerdydd**, isod.

**Strwythurau**

4.7 Mae pum awdurdod allan o ddeuddeg wedi penodi Pennaeth Ysgol Rithwir. Mae gweddill yr awdurdodau eraill naill ai'n cyflogi staff mewn rolau sy'n cyflawni'r un gwaith megis 'Rheolwr Gwasanaeth; (Ynys Môn), 'Rheolwr Cynhwysiant' (Powys), ac 'Arweinydd Ysgol Rithwir'. Roedd pedwar o'r awdurdodau lleol heb Bennaeth Ysgol Rithwir yn nodi eu bwriad i benodi Pennaeth Ysgol Rithwir, ac nid oedd un yn

nodi p’un a fyddai Pennaeth yn cael ei benodi ai peidio. Mae rolau Penaethiaid Ysgolion Rhithwir wedi cael eu datblygu, neu’n bwriadu cael eu datblygu, o swyddi presennol o fewn yr awdurdodau lleol (megis Cydgysylltwyr Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal neu swyddi cyfwerth), ac roedd awdurdodau eraill wedi creu, neu’n bwriadu creu, rôl newydd a fydd yn cael ei hysbysebu. Er y gallai cyfrifoldebau unigol wahaniaethu, mae rôl Pennaeth yr Ysgol Rithwir i’w gweld yn gymharol debyg ar draws awdurdodau lleol, sef datblygu system Ysgol Rithwir (megis gweithgareddau cwmpasu a datblygu systemau), adeiladu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allweddol sy’n ymwneud â phlant â phrofiad o ofal y tu allan ac oddi mewn i’r awdurdod lleol, ac arwain tîm o staff yr Ysgol Rithiwr mewn ymyriadau dydd i ddydd gyda phlant â phrofiad o ofal mewn addysg.

4.8 Mae strwythur staffio yn ôl gwybodaeth monitro yn yr Ysgolion Rhithwir yn amrywio. O’r wybodaeth sydd ar gael, gall timau Ysgolion Rhithwir amrywio o ddau i ddeuddeg aelod o’r tîm yn ogystal â Phennaeth yr Ysgol Rithwir. Mae amrywiaeth o deitlau a chyfrifoldebau ar gyfer y rolau hyn, yn amrywio o staff sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda disgyblion â phrofiad o ofal a rhanddeiliaid, i rolau rheoli a gweinyddol. Mae rhai modelau Ysgolion Rhithwir yn defnyddio tîm plant â phrofiad o ofal a oedd yn ei le cyn y cynllun peilot. Nid oedd yn glir o’r wybodaeth a oedd ar gael i ba raddau yr oedd cyllid presennol neu gyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir yn cael ei ddefnyddio i ariannu timau a systemau i gefnogi plant â phrofiad o ofal.

**Dull Integredig**

4.9 Un o brif flaenoriaethau awdurdodau lleol wrth ddatblygu dull integredig ynghylch Ysgolion Rhithwir yw datblygu cysylltiadau a’u hintegreiddio gyda systemau cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol plant a phobl ifanc. Roedd 11 o’r 12 awdurdod lleol yn amlinellu polisi ac arferion ar gyfer plant â phrofiad o ofal sy’n alinio, neu’n bwriadu alinio, gyda systemau cefnogaeth ADY. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud hyn drwy integreiddio data ar-lein i ddarparu gwybodaeth am blant â phrofiad o ofal a’u Hanghenion Dysgu Ychwanegol mewn un system wybodaeth.

4.10 Roedd pob un o’r awdurdodau lleol, gan gynnwys y rhai hynny sy’n dal i fod yng nghyfnod cwmpasu’r broses o weithredu Ysgol Rithwir, yn mynegi pwysigrwydd ‘llais y disgybl’ yn y model Ysgol Rithwir, gan gyd-fynd ag argymhellion Foster et al. (2021). Rhoddodd yr awdurdodau lleol enghreifftiau o sut caiff llais y disgybl ei

gasglu er mwyn llywio arferion ac ymyriadau'r model Ysgol Rithwir, gan gynnwys gwell systemau data sy'n gallu cynnwys gwybodaeth 'ansoddol' gan blant â phrofiad o ofal, 'astudiaethau achos' o blant unigol â phrofiad o ofal sy'n ystyried llesiant ochr yn ochr â mesurau canlyniadau addysgol, a gweithgareddau 'ymgysylltu' gyda disgyblion â phrofiad o ofal. Er bod yr enghreifftiau hyn yn rhoi trosolwg o rai agweddau tuag at lais y disgybl, ni chafwyd manylion am y broses o gasglu a defnyddio llais y disgybl yn nifer o'r ffurflenni monitro. Felly, mae angen mwy o ddata i ddeall manylion yr agwedd hon ar integreiddio yn y model Ysgol Rithwir.

4.11 Gellir gweld enghraifft arall o ddull integredig yn y ffocws cryf ar gydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, megis ysgolion, ymarferwyr addysg, gweithwyr cymdeithasol, ac eraill, yn enwedig drwy ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr addysg ar systemau newydd (megis systemau monitro data newydd a Chynlluniau Addysg Personol ar-lein), a chodi ymwybyddiaeth o anghenion plant â phrofiad o ofal. I ddangos hynny, roedd pum awdurdod lleol yn nodi eu bod yn defnyddio polisi ac ymarfer 'ystyriol o drawma'. Mae hyn yn golygu hyfforddi ymarferwyr ac ysgolion i fod yn ymwybodol ac i geisio lleihau unrhyw effeithiau negyddol y gallai'r plant â phrofiad o ofal fod wedi'u profi.

**Effeithiau**

4.12 Er ei bod yn ddyddiau cymharol gynnar yn y broses o gyflwyno model Ysgol Rithwir i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, darparodd 6 o'r 12 awdurdod dystiolaeth o effeithiau canfyddedig eu modelau Ysgolion Rhithwir fel rhan o'u ffurflenni monitro. Gwnaed hyn ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gydag amrywiaeth eang o fanylion, o ddatganiadau syml i astudiaethau achos am ddisgyblion a dyfyniadau gan randdeiliaid allweddol mewn un achos. Ni ddarparodd y gweddill wybodaeth am effeithiau; gallai hyn fod oherwydd nad oedd gwybodaeth ar gael; gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r ffaith nad oes gwybodaeth ar gael ynglyn ag effaith, neu ei bod hi'n rhy gynnar yn y broses i fesur unrhyw effeithiau megis lle nad yw'r ysgol rithwir wedi'i chyflwyno hyd yma neu wedi'i chyflwyno'n ddiweddar.

4.13 Roedd gwell systemau monitro data yn effaith/canlyniad cyson a nodwyd gan bob un o'r chwe awdurdod lleol. Mae'r systemau hyn yn hwyluso'r gwaith o 'fonitro' a 'thracio' disgyblion â phrofiad o ofal yn well o ran lleoliadau ac ardaloedd, yn ogystal â chasglu data cyrhaeddiad mewn modd mwy effeithiol. Gallai hyn ganiatáu ar gyfer targedu cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn fwy effeithiol. Yn ogystal, mae gwell systemau data yn golygu bod modd cwblhau Cynlluniau Addysg Personol yn

electronig gyda mynediad rhwydd at y data perthnasol, gan helpu un Ysgol Rithwir i 'gwblhau 100% o Gynlluniau Addysg Personol ar amser'; mae cwblhau Cynlluniau Addysg Personol wedi bod yn heriol i yn y gorffennol i awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, mae'r Cynlluniau Addysg Personol hyn hefyd yn cael eu defnyddio i gasglu data 'ansoddol' gan ddisgyblion â phrofiad o ofal, ac maent yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â disgyblion, sy'n gallu cadw copi personol, gan alluogi ymdeimlad o 'berchnogaeth' o'r broses a defnyddio llais y disgybl. Gallai'r ffactorau hyn ganiatáu ymyriadau mwy penodol ac ymatebol gan fod y Penaethiaid Ysgolion Rhithwir yn cael mwy o fynediad i dracio cynnydd disgyblion â phrofiad o ofal dros amser.

4.14 Nododd nifer o awdurdodau lleol eu bod wedi darparu 'hyfforddiant' i ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol eraill i'w haddysgu a chodi ymwybyddiaeth o anghenion plant â phrofiad o ofal. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar y prosesau a'r systemau perthnasol, sicrhau bod gan ysgolion staff 'dynodedig' i ymgysylltu gyda phlant â phrofiad o ofal, ac mewn un achos, pecyn adnoddau y gallai ysgolion ei roi ar waith ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Trwy fentrau fel hyn, gellir gweld yr effaith ar ffurf ymwybyddiaeth gynyddol ymysg rhanddeiliaid allweddol o'r prosesau a'r systemau sy'n berthnasol i blant â phrofiad o ofal, yn ogystal ag anghenion y disgyblion hyn.

4.15 Nododd un awdurdod lleol bod canran y dysgwyr â phrofiad o ofal a arhosodd mewn addysg prif ffrwd wedi cynyddu rhwng 2022 a 2023 o ganlyniad i gefnogaeth ddwys, wedi'i deilwra gan ymarferwyr Ysgol Rithwir a chydweithio gydag ysgolion a rhanddeiliaid eraill.

4.16 Nododd un awdurdod lleol (Powys), gynnydd sylweddol mewn presenoldeb disgyblion â phrofiad o ofal ers cyflwyno Ysgolion Rhithwir yn y rhanbarth, o ganlyniad i dîm o staff 'ymroddgar' a alluogwyd gan gyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir. Am archwiliad manwl o'r model Ysgol Rithwir ym Mhowys, gweler **Astudiaeth Achos 1** isod.

**Astudiaeth Achos 1: Powys**

4.17 Cyflwynodd Powys gais llwyddiannus am gyllid yn 2021-22 a 2022-23. Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar ddata o'r ffurflen fonitro a gyflwynwyd gan awdurdod lleol Powys, a data ansoddol o gyfweliad gyda dau randdeiliad allweddol

o Ysgol Rithwir yr awdurdod lleol. Rydym yn nodi bod pob dyfyniad hirach wedi cael eu darparu yn ystod y cyfweliad hwn, oni nodir yn wahanol.

**Cefndir**

4.18 Cyn i gyllid y model Ysgol Rithwir ddod ar gael, roedd un swyddog yn gyfrifol am gefnogi addysg plant â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, adroddwyd bod y swydd hon yn cynnwys 'llawer o gyfrifoldebau eraill' megis diogelu a chwynion, gan olygu bod yr unigolyn hwn yn gweithio mewn 'rôl yn goruchwylio' plant â phrofiad o ofal i ddarparu cymorth pan fo angen, megis 'lleoliad addysg brys'. Nodwyd nad oedd 'dull cyfunol o gefnogi plant â phrofiad o ofal gyda'i gilydd', ac 'yn bendant, nid oedd unrhyw waith tracio neu fonitro, neu fesur effaith'. Y tu hwnt i'r rôl hon, nid oedd 'unrhyw staff dynodedig' ar gyfer plant â phrofiad o ofal, gyda gweithwyr gofal yn cefnogi plant â phrofiad o ofal ar sail 'pan fo'r angen'; felly, nid oedd modd iddynt ddatblygu 'dealltwriaeth fanwl o sefyllfa bob plentyn' a'u hanghenion perthnasol.

**Gweithredu'r Model Ysgol Rithwir**

4.19 Ym Mhowys, cafodd y Rheolwr Cynhwysiant presennol (cyfwerth â Phennaeth yr Ysgol Rithwir) ei secondio i'r tîm cynhwysiant ar sail ran-amser i wneud gwaith ymchwil cwmpasu, gan ddefnyddio cyllid y model Ysgol Rithwir i dalu'r costau hynny. Yn dilyn ymchwil desg, buont yn cyfarfod gyda 'thri awdurdod lleol yn Lloegr' gyda'r nod o ddatblygu strwythur cynaliadwy i gefnogi 'gweithwyr cymdeithasol a'r tîm gofal cymdeithasol, a'r plant a'r teuluoedd eu hunain'. Fel rhan o'r broses gwmpasu a datblygu, bu'r Rheolwr Cynhwysiant presennol yn goruchwylio'r swyddog plant â phrofiad o ofal er mwyn;

> 'deall gofynion y plant â phrofiad o ofal o ddydd i ddydd a deall y cymhlethdodau a ddaw wrth eu cefnogi'n unigol a gyda'i gilydd.'

Yn dilyn yr ymarferion hyn, datblygwyd cynllun gweithredu a chyflwynwyd y model Ysgol Rithwir ym mis Medi 2022.

4.20 Mae strwythur y model Ysgol Rithwir fel a ganlyn. Ceir Rheolwr Cynhwysiant, sydd wedi arwain yr Ysgol Rithwir ar sail barhaol ers mis Ionawr 2023. Ar y dechrau, roedd y tîm yn cynnwys '2.5 athro arbenigol' a rôl weinyddol; gan ddechrau ym mis Medi 2022, roedd un athro arbenigol yn canolbwyntio ar ddysgwyr uwchradd, un ar ddysgwyr cynradd, ac roedd 'athro arbenigol rhan amser' yn canolbwyntio ar ddysgwyr ôl-16 â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu am ddau dymor, penderfynwyd addasu'r strwythur i fod yn addas ar gyfer 'yr agweddau'n ymwneud

â phlant â phrofiad o ofal sy'n newid yn gyson' a heriau daearyddol '2008 milltir sgwâr' Powys. Felly, bydd y tri athro arbenigol bellach yn gweithio yn rhanbarthau gogledd, canol a de'r awdurdod lleol. Nodwyd bod manteision i hyn o ran 'uwchsgilio' staff i gefnogi plant â phrofiad o ofal yn eu hardal mewn modd mwy holistaidd, a'i fod yn galluogi 'plentyn sydd ar daith o dderbyn gofal' i dderbyn yr un athro arbenigol yn ysgol gynradd, uwchradd, ac addysg ôl-16, ac y byddai'r 'athro arbenigol yn adnabod y plentyn yn dda'.

**Llwyddiannau ac Effeithiau'r Model Ysgol Rithwir**

4.21 Un o'r prif agweddau positif sy'n codi o weithredu'r model Ysgol Rithwir yw meithrin perthnasau. Mae'r athrawon arbenigol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr cymdeithasol plant â phrofiad o ofal, ac mae ganddynt ystod o rolau gydag ysgolion a theuluoedd gan gynnwys;

> 'sgyrsiau gyda rhieni, cydlynu Cynlluniau Addysg Personol, cyfarfodydd ail-integreiddio yn dilyn gwaharddiadau, cymorth gyda chyngor gyrfa, a chefnogi cyfarfodydd presenoldeb'.

Gall yr athrawon arbenigol hefyd gyfeirio disgyblion i ystod o raglenni a allai fod o fudd i blant â phrofiad o ofal, gan gynnwys 'Rhaglen Bright Stars, ac Ysgolion Coedwig'.

4.22 Mae ymyriadau gyda phlant â phrofiad o ofal yn cael eu 'targedu' gan ganolbwyntio ar ddeall a chynnwys 'llais y disgybl' yn y system drwy greu perthynas gyda disgyblion â phrofiad o ofal a rhanddeiliaid. Er enghraifft, wrth gyflwyno'r model Ysgol Rithwir, cafodd nifer o 'raglenni ail-ymgysylltu' eu treialu ar gyfer disgyblion â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, ar ôl ceisio adborth gan ddisgyblion, roedden nhw'n 'dweud yn eithaf clir nad oeddent eisiau' rhai o'r ymyriadau gan nad oeddent eisiau 'cael eu neilltuo' mewn modd penodol yn yr ysgol. Felly, daeth yr ymyriadau hyn i ben, gan ddangos bod y model Ysgol Rithwir yn cael ei fodelu'n rhannol o amgylch adborth ac ystyriaeth amlwg o lais disgyblion.

4.23 Mae llwyddiannau eraill yn cynnwys 'cyfradd gwblhau o 100% ar gyfer Cynlluniau Addysg Personol' a gwblhawyd drwy system electronig er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Mae 'adnodd tracio manwl iawn' wedi cael ei ddatblygu sy'n darparu gwybodaeth ar gynnydd addysgol plant â phrofiad o ofal. Ceir 'proffil ar gyfer pob plentyn' ar gyfer ADY ac mae'n gallu creu cynlluniau datblygu unigol, ond

mae ‘hefyd yn cadw Cynlluniau Addysg Personol ar-lein’ fel bod ‘popeth ar gael mewn un lle’ i sicrhau mynediad effeithlon i ymarferwyr.

4.24 Ers gweithredu’r model Ysgol Rithwir, gwelwyd cynnydd mewn presenoldeb plant â phrofiad o ofal yn yr ysgol, sydd bellach yn ‘0.04 [y cant] yn unig y tu ôl i ffigyrau presenoldeb cyffredinol Powys’, sy’n cael ei ddisgrifio fel ‘gwelliant sylweddol’ sydd wedi cael ei ‘gynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd’. Roedd y rhesymau dros y gwelliant yn cael eu priodoli i ymroddiad athrawon arbenigol yr Ysgol Rithwir, sydd bob amser yn ‘effro’ ac yn ‘gwneud beth bynnag sydd ei angen’ i sicrhau canlyniadau positif i blant â phrofiad o ofal.

> ‘ble mae pob plentyn unigol a ble mae pob plentyn yn mynd i’r ysgol... ac yna’n gweithio gyda’r ysgolion hynny a gyda strategaethau ac ymyriadau... i gael y plant hynny yn yr ysgol am gyfnod hwy’.

Ceir canfyddiad bod staff Ysgolion Rhithwir, wedi llwyddo i sicrhau effaith wirioneddol ar bresenoldeb disgyblion â phrofiad o ofal, drwy ddefnyddio strwythurau ac adnoddau’n effeithlon.

4.25 Amlinellir un enghraifft benodol o ymyrraeth i wella presenoldeb yn un o’r astudiaethau achos a ddarparwyd gan awdurdod lleol Powys. Roedd disgybl â phrofiad o ofal yn dangos ‘presenoldeb gwael, [diffyg] ymgysylltiad, a nifer o bwyntiau ymddygiad negyddol’, gyda phresenoldeb o ’79.8%’ yn yr ysgol. O ganlyniad -

> ‘comisiynodd y tîm Ysgol Rithwir waith gyda Bright Star, sefydliad nid er elw sy’n defnyddio bocsio ac addysg i rymuso pobl ifanc i wneud newidiadau cadarnhaol’

Yn ogystal â chomisiynu gwaith, bu’r Ysgol Rithwir hefyd yn -

> ‘cynnal y rhaglen Dyfodol, sef darpariaeth addysg amgen i bobl ifanc, un diwrnod yr wythnos. Maen nhw’n defnyddio chwaraeon, mentora ac addysgu i ysbrydoli, ymgysylltu a chysylltu.’

Yn dilyn yr ymyriadau hyn, mae’r disgybl bellach yn ‘gwneud yn dda mewn gwersi’, yn ‘llawer llai negyddol am yr ysgol’, mae ei ‘raddau wedi gwella’ ac mae ei bresenoldeb wedi cynyddu i ‘92%’. Mae hyn yn enghraifft o bwysigrwydd staff dynodedig yn yr Ysgol Rithwir a oedd yn gallu nodi anghenion yr unigolyn ac yn meddu ar yr adnoddau i weithredu, gan alluogi effaith gadarnhaol.

4.26 Nod Powys yw i bob ysgol gael ‘polisi ar waith ar gyfer plant sy’n derbyn gofal’, ‘athro dynodedig’, a ‘llywodraethwr cyswllt’ i arwain ar faterion yn ymwneud â phlant â phrofiad o ofal. Roedd ffigyrau a adroddwyd ym mis Ionawr 2023 yn nodi bod nifer yr athrawon dynodedig wedi cynyddu o ’90 i 94’, nifer y polisïau plant â phrofiad o ofal wedi cynyddu o ’50 i 68’, a nifer y llywodraethwyr cyswllt wedi cynyddu o ‘2 i 11’, sy’n dangos effaith y model ysgolion rhithwir ar seilwaith addysg ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Er cyd-destun, mae data o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn nodi bod 90 ysgol (cynradd, canol, uwchradd ac ysgolion arbennig) ym Mhowys.

4.27 At hynny, adroddwyd bod ‘nifer o waharddiadau’ wedi cael eu hosgoi, ac na chafwyd ‘unrhyw waharddiad parhaol’ ers cyflwyno’r model Ysgol Rithwir o ganlyniad i ‘weithio’n uniongyrchol gyda’r ysgolion’. Ystyrir hyn yn ganlyniad ‘pwysig iawn’.

> ‘mae’n bwysig iawn bod yr ysgolion yn deall bod gan y plant yma amgylchiadau gwahanol iawn’.
>
> ‘nid ydynt yn colli dyddiau ysgol ac nid ydynt yn derbyn neges negyddol am yr ysgol.’

4.28 Mae Powys yn gweithio gyda ‘chwe awdurdod lleol’ ar hyn o bryd i drafod ‘sut i fesur effaith’ yn dilyn y newidiadau i’r ffordd y caiff dysgwyr eu hasesu dan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae heriau o ran tracio cynnydd sy’n deillio o wahanol systemau asesu yng Nghymru a Lloegr hefyd dan ystyriaeth. Mae ffyrdd posibl o fesur effaith a nodwyd yn cynnwys;

> ‘astudiaethau achos... sgorau adborth... matrics sy’n mesur popeth o waharddiadau i les... targedau Cynllun Addysg Personol.’

Y nod yw creu dull ‘cyson’ a byddent wrth eu bodd pe bai’n digwydd ‘ledled Cymru gan y byddai hynny gymaint haws i bob un ohonom’.

4.29 Adroddwyd effeithiau pellach y model Ysgol Rithwir a ddatblygwyd ar ffurf adborth gan randdeiliaid ar y ffurflen fonitro.

> ‘mae’r cymorth yr ydym ni’n ei dderbyn gan yr ysgolion rhithwir yn ein helpu i ddarparu cefnogaeth gyda’r broses Cynllun Addysg Personol gyda llu o wybodaeth y byddem yn ei chael yn anodd ei dyblygu. Pe na bai’r ysgol rithwir

yn gallu cefnogi pobl ifanc mewn addysg, rwy'n teimlo y byddai plant yn colli llawer o gyfleoedd.'

Gweithiwr cymdeithasol, awdurdod lleol Powys

Eglurodd gweithiwr cymdeithasol arall fod athrawon arbenigol o'r Ysgolion Rhithwir wedi gweithio'n agos gyda nhw i'w cefnogi gyda nifer o dasgau 'a fyddai wedi cael eu methu heblaw am y gwasanaeth hwn.'

'mae'r ysgolion rhithwir wedi bod yn ased gwerthfawr gan ei fod wedi galluogi i bopeth fod ar gael yn ganolog i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses. Mae'r system yn llawer mwy cadarn, cynhwysol a chryno.'

Prifathro, awdurdod lleol Powys

'mae ymholiadau gan ofalwyr/rhieni wedi cael eu hateb yn brydlon ac mae cyfarfodydd a gynhaliwyd wedi bod yn ddefnyddiol, yn llawn gwybodaeth ac yn gryno. Mae disgyblion a'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth lawn gan y gwasanaeth ar bwyntiau pontio allweddol, gan sicrhau bod disgyblion yn cael anogaeth lawn i aros mewn addysg ac i gyflawni eu potensial academaidd.'

Arweinydd diogelu dynodedig, awdurdod lleol Powys

Mae'r achosion hyn a adroddwyd yn dangos effaith bositif y model Ysgol Rithwir ym Mhowys ar berthnasau cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid.

**Rhwystrau rhag gweithredu**

4.30 Teimlir bod natur dros dro cynllun peilot y model Ysgol Rithwir, a'r ansicrwydd ynghylch ei ddyfodol, yn rhwystr i awdurdod lleol Powys. Mae hyn yn broblem benodol o ran staffio, gydag athrawon arbenigol yr ysgolion Rhithwir yn gorfod bod ar 'gytundebau cyfnod penodol' o ganlyniad i'r ansicrwydd hwn. Mynegwyd gofid nad oedd modd cynnig cytundebau parhaol -

'rydych chi eisiau rhoi rhywfaint o sicrwydd i'ch staff gan eich bod yn gwybod eu bod yn gweithio'n galed iawn i gyflawni'r rhaglenni gwych hyn i ddysgwyr'.

Nodwyd eu bod wedi bod yn 'lwcus iawn yn y bobl a ymgeisiodd ar gyfer y swyddi hyn' sy'n 'gydwybodol ac yn gweithio'n galed', fodd bynnag, pe byddent yn symud i swyddi eraill, mae'n debyg y byddai angen iddynt 'uwchsgilio' person newydd 'yn sylweddol', ac mae'n bosibl na fyddai cyllid ar gael i wneud hyn. O ganlyniad, adroddwyd bod sicrhau cyllid parhaus a pharhaol gan Lywodraeth Cymru yn

flaenoriaeth i Bowys er mwyn cynnal eu lefelau staffio, a'r effeithiau'n deillio o hynny.

4.31 Fel y nodwyd uchod, mae Powys yn unigryw yng Nghymru gan ei fod yn ymestyn dros ardal o '2008 milltir sgwâr', gan ffinio '14 awdurdod lleol'. O ganlyniad, mae'n rhaid i awdurdod lleol Powys 'wneud taliadau i'r dysgwyr hynny sy'n derbyn gofal gan awdurdodau eraill' sy'n 'swm sy'n newid drwy'r amser... gallai hyn fod yn 25 mewn un mis, ac yn 35 y mis canlynol' a allai arwain at 'orfod dod o hyd i £12,000-14,000', ac mae hynny'n anodd ei gynnal gyda 'chyllid blwyddyn i flwyddyn' pan 'fyddwch chi'n ceisio cyllidebu ar gyfer yr ysgol rithwir yn ei chyfanrwydd' a'ch bod 'eisoes wedi ymrwymo i staffio' Mae hyn unwaith eto'n dangos anawsterau gyda chyllid dros dro, ac mae heriau daearyddol yr awdurdod lleol yn gwaethygu'r anawsterau hynny.

4.32 Cafodd gofal ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu a phlant sydd wedi cael profiad o ofal yn y gorffennol ei ddisgrifio fel 'tir peryglus' gan nad yw 'data yn cael ei rannu o reidrwydd' gan rieni, a 'dim ond os bydd rhiant yn dweud wrthynt' mae'r Ysgolion Rhithwir yn gwybod os mae plentyn wedi cael ei fabwysiadu. Er bod Ysgolion Rhithwir yn cynnig 'cyngor a chefnogaeth ynghylch strategaethau ac ymyriadau' ac yn 'gweithio o fewn ysgolion i sicrhau eu bod yn darparu... cymorth cynhwysol' i bob plentyn â phrofiad o ofal, nid yw'n 'brif ran' o'r cymorth y maent yn gallu ei gynnig ar hyn o bryd.

**Dyfodol Model yr Ysgol Rithwir**

4.33 Roedd cyfranogwyr o Bowys o blaid gweld parhad i'r model Ysgolion Rhithwir gyda 'buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru' yn dod yn agwedd 'barhaol'. Byddai hyn yn eu galluogi i weithredu strwythur Ysgol Rithwir tymor hwy, gyda staff a gyflogir ar sail barhaol fel yr amlinellwyd uchod i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant â phrofiad o ofal.

4.34 Roedd cyfweleion ym Mhowys yn credu y dylid cael ambell i elfen 'safonol... hanfodol' o ran ymarfer a dull gweithredu fel rhan o fodel Ysgol Rithwir barhaus ledled Cymru, ond roddent yn credu ei fod yn bwysig iddynt gael 'trosolwg strategol' gan fod 'angen strwythurau ychydig yn wahanol ar wahanol awdurdodau lleol' i addasu i'r 'amgylchiadau gwahanol iawn' sy'n wynebu pob un ohonynt, gan gyfeirio unwaith eto at yr heriau y mae Powys yn eu hwynebu oherwydd maint yr awdurdod a nifer yr awdurdodau ar y ffin.

4.35 Roedd cyfweleion ym Mhowys o blaid cydweithrediad cenedlaethol i rannu gwybodaeth am arfer da ac i fynd i'r afael â'r 'diffyg safoni ar draws Cymru' o ran y dulliau cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg.

**Astudiaeth Achos 2: Ynys Môn**

4.36 Derbyniodd Ynys Môn hefyd gyllid yn 2021-22 a 2022-23. Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar ddata o'r ffurflen fonitro a gyflwynwyd gan awdurdod lleol Ynys Môn, a data ansoddol o gyfweliad gydag un rhanddeiliad allweddol o'r ysgol rithwir. Rydym yn nodi bod yr holl ddyfyniadau hirach wedi cael eu darparu yn y cyfweliad hwn.

**Cefndir**

4.37 Cyn cyflwyno'r cyllid ar gyfer y cynllun peilot, roedd gan Ynys Môn rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'i lleoli o fewn y 'Gwasanaeth Plant a Theuluoedd'. Dyma'r 'unig berson a oedd yn gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal' gyda llwyth achosion rhwng 'cant' a 'chant a hanner' o blant.

**Gweithredu'r Model Ysgol Rithwir**

4.38 Ers cyflwyno'r cyllid model Ysgol Rithwir, mae Ynys Môn wedi bod yn gwneud 'tipyn o waith cwmpasu', yn edrych ar fodelau Ysgolion Rhithwir yn Lloegr, sef Norfolk, Lewisham a Swydd Gaer yn benodol. Er bod cydnabyddiaeth na fyddai'r sir yn derbyn y cyllid angenrheidiol i efelychu'r enghreifftiau hyn yn uniongyrchol, roeddent yn teimlo ei fod yn rhoi 'syniad da o'r hyn sy'n gweithio' ac yn eu helpu i lunio cynlluniau i gyflwyno'r hyn y mae Ynys Môn yn ei alw'n 'wasanaeth integredig' ar gyfer plant â phrofiad o ofal.

4.39 Mae'r 'gwasanaeth integredig' yn cael ei arwain gan y Rheolwr Gwasanaethau, sy'n gyfrifol am 'addysg, ymgysylltiad a chynnydd' plant â phrofiad o ofal, gan sicrhau bod 'pob dysgwr bregus yn cyrraedd ei botensial yn llawn', darparu 'cymorth/darpariaeth addysg ffurfiol/anffurfiol', 'clybiau ieuenctid a gweithgareddau', ac i ddatblygu Ynys Môn i fod yn 'ynys sy'n ystyriol o drawma'. Mae'r Rheolwr Gwasanaethau yn arwain tîm a oedd yn cynnwys Gweithiwr Cymdeithasol Ymarfer Arweiniol, Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, athro cymwys llawn amser o fis Medi 2023, 'deg swyddog lles wedi'u lleoli yn ein hysgolion uwchradd', a gweithwyr ieuenctid yn cyd-fynd â'r Gwasanaeth Ieuenctid sy'n gweithio-

‘am ddiwrnod yr wythnos o leiaf yn cefnogi naill ai plant sy’n derbyn gofal, plant ar y Gofrestr Gwarchod Plant, neu blant a phobl ifanc sydd ar ymyl gofal’.

Ceir hefyd ‘swyddog data cefnogi busnes rhan amser’, sy’n gyfrifol am gynnal y system monitro data ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal. Felly, mae Ynys Môn wedi dechrau adeiladu tîm, yn ogystal ag adlinio ‘gwasanaethau o fewn y gwasanaethau addysg, plant a theuluoedd fel bod gennym sylfaen a strwythur ar gyfer staffio’ i gefnogi plant sydd â phrofiad o ofal yn fwy effeithiol mewn addysg.

4.40 O ran ariannu’r gwasanaeth integredig, defnyddiwyd ‘95% o’r cyllid grant yn 2022/23’ i recriwtio a datblygu’r swydd ‘rheolwr gwasanaethau’ newydd. Caiff gweddill y gwasanaeth ei ariannu drwy adlinio cyllid craidd o gyllideb flynyddol awdurdod lleol Ynys Môn.

**Llwyddiannau ac Effeithiau’r Model Ysgol Rithwir**

4.41 Mae cyflwyno’r system data gwybodaeth reoli wedi galluogi’r gwasanaeth integredig i olrhain a ‘dangos cynnydd yn yr hyn yr ydym wedi’i wneud’ gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, ac mae’n cyfuno data plant sydd â phrofiad o ofal ac Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr un system. Mae’r integreiddiad hwn ynghyd ag aliniad adnoddau’r Gwasanaeth Ieuenctid gyda thîm y gwasanaeth integredig yn galluogi ‘dull amlasiantaethol’ sy’n darparu ymyriadau amserol i blant â phrofiad o ofal mewn addysg.

4.42 Disgrifiwyd ‘llais y dysgwr’ fel rhan ‘hanfodol’ o ddatblygiad y gwasanaeth integredig. Er enghraifft, bu’r gwasanaeth yn gweithio gyda ‘500 o bobl ifanc’ gan gynnwys plant â phrofiad o ofal a phlant sydd ‘ar ymyl gofal’ am ‘wythnos lawn o ddysgu yn yr awyr agored’ lle gofynnwyd i’r plant ‘beth sy’n bwysig i chi?’ a ‘beth ydych chi ei angen?’. Yn ogystal, mae swyddogion y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn cwblhau proses ‘beth sy’n bwysig’ gyda phlant â phrofiad o ofal ynghyd â ‘holiadur cyffredinol’ ac maent yn adrodd eu bod yn defnyddio’r dystiolaeth i deilwra ymyriadau a phrosesau. Yn ogystal, cynhelir y ‘Gwobrau Seren’ yn flynyddol i ddathlu cyraeddiadau plant â phrofiad o ofal.

4.43 Ceir ffocws ar gadw plant â phrofiad o ofal yn y sir, yn hytrach na cheisio lleoliadau ar draws finiau ‘oherwydd y defnydd o’r iaith Gymraeg’, a’r ‘elfen o deimlo’n rhan o’r gymuned’. Er mwyn sicrhau hyn, mae gan y gwasanaeth -

'dri chartref grŵp bach sy'n derbyn rhwng dau a thri o blant a phobl ifanc. Mae'r rhain wedi ennill gwobr genedlaethol gan ein bod yn 'dod â phlant yn ôl i Ynys Môn'.

O ganlyniad, dim ond 'tua wyth neu naw' plentyn â phrofiad o ofal sydd wedi cael ei leoli y tu allan i Ynys Môn.

4.44 Nododd y cyfwelai o Ynys Môn bod y gwasanaeth integredig wedi 'effeithio'n gadarnhaol ar bresenoldeb' plant â phrofiad o ofal mewn ysgolion. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y rheolwr data yn gallu 'dangos cynnydd gwirioneddol', a bod systemau data yn galluogi mwy o fonitro uniongyrchol ac ymyriadau amserol, gan helpu i 'gadw mwy o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth' mewn addysg, a helpu i osgoi gwaharddiadau.

4.45 Bu'r cyfwelai o Ynys Môn hefyd yn disgrifio llwyddiant wrth weithio gyda phlant 'ar ymyl gofal', gan olygu 'nad oedd rhaid i rai plant ddod i mewn i'r system ofal'. Cafodd hyn ei gyflawni drwy ganolbwyntio ar strategaethau lliniaru, gan anelu at weithio gyda rhanddeiliaid i gadw plant â phrofiad o ofal mewn cartref, teulu ac amgylchedd ysgol 'diogel'.

**Rhwystrau rhag gweithredu**

4.46 Nodwyd bod 'diffyg cyllid' yn rhwystr allweddol rhag datblygu'r gwasanaeth integredig, gan ddweud bod y cyllid 'wedi helpu, ond yn amlwg, dim ond swm bychan iawn o arian yw hwn'. Gellir gweld hyn wrth i fwyafrif y rolau a'r systemau o fewn y gwasanaeth integredig gael eu hariannu gan gyllid wedi'i ail-glustnodi gan awdurdod lleol Ynys Môn, gyda chyllid model yr Ysgol Rithwir yn cyfrannu tuag at rôl y Rheolwr Gwasanaethau.

4.47 Rhwystr arall a ddisgrifiwyd oedd bod dwy system reoli ar waith. Un o'r rhain yw'r 'system wybodaeth reoli addysg' lle mae data'n cael ei ychwanegu gan bob un o'r ysgolion, a'r llall yw'r system 'WCISS' a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Nid yw'r ddwy system yn 'siarad gyda'i gilydd, ac ni fyddant byth yn gwneud hynny', ac o ganlyniad, mae 'ymdrin â data byw' o ddwy ffynhonnell ar wahân wedi bod yn 'eithaf heriol' o ran 'integreiddio ADY a chynhwysiant' oherwydd y risg o ddyblygu data.

4.48 Adroddwyd bod agweddau a disgwyliadau rhanddeiliaid wedi profi'n her ychwanegol. Mae addysgu rhanddeiliaid am brosesau'r gwasanaeth integredig newydd wedi bod yn anodd. Er enghraifft, 'mae newid meddylfryd pobl wedi bod yn

eithaf heriol o ran yr hyn y mae'r model Ysgol Rithwir neu reolwr integredig' yn ei olygu, a sut y bydd hyn yn 'gwneud gwahaniaeth' i blant â phrofiad o ofal. I'r gwrthwyneb, mae 'rheoli disgwyliadau' gweithwyr cymdeithasol o ran yr hyn y gall y gwasanaeth integredig ei gyflawni o fewn yr amser cyfyngedig ers iddo fod yn weithredol hefyd wedi bod yn her.

4.49 Nododd y cyfwelai o Ynys Môn nad oedd wedi clywed 'unrhyw gyfathrebu o gwbl' gan awdurdodau cyfagos ynghylch datblygiad y model Ysgol Rithiwr, sydd yn nodweddiadol yn defnyddio modelau 'cwbl wahanol'. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i rannu arfer effeithiol rhwng gwahanol awdurdodau.

**Dyfodol y Model Ysgolion Rhithwir**

4.50 Bu'r cyfwelai o Ynys Môn yn disgrifio gweledigaeth yr awdurdod lleol i fod yn 'ynys sy'n ystyriol o drawma erbyn 2025' er mwyn 'bodloni anghenion ein plant... yn llawer cyflymach', ac maent yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru at y perwyl hwn, sydd ar fin cyhoeddi astudiaeth achos ar brosesau Ynys Môn.

4.51 Ceir nod i gynyddu lefelau staffio i gyflawni'r dull integredig, ystyriol o drawma, gyda dyhead i gael ail athro cymwys a 'Chynorthwyydd Dysgu Lefel Uwch, neu gynorthwyydd dosbarth, neu hyfforddwr dysgu' a 'gweithiwr therapiwtig' i helpu plant â phrofiad o ofal i wneud cynnydd yn yr ysgolion, yn ogystal ag 'edrych ar eu cyrhaeddiad mewn modd mwy holistaidd, gan edrych ar eu llesiant'.

4.52 O ran dyfodol y model Ysgol Rithwir, mae Ynys Môn wedi ymrwymo i barhau gyda'r system integredig. Maent yn dadlau bod 'cymuned arfer neu grŵp strategol o 22 awdurdod lleol' cenedlaethol yn 'hanfodol' er mwyn symud y model Ysgol Rithwir yn ei flaen i 'ddangos arfer effeithiol' ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal.

4.53 Er bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun peilot model Ysgol Rithwir wedi cael ei groesawu fel cam 'dewr', nodwyd y byddent 'yn awyddus i wybod y byddai cyllid posibl ar gael ar gyfer y ddwy neu dair blynedd nesaf, os nad mwy'. Nododd y cyfwelai nad oedd yn gallu meddwl am unrhyw newidiadau sylweddol o ran cefnogaeth i blant â phrofiad o ofal mewn addysg dros yr '20 mlynedd diwethaf', ac y byddai'n croesawu trafodaethau ynglŷn â sut y dylid symud y model yn ei flaen. Dywedodd y cyfwelai 'er mwyn i bethau newid... byddai angen i ni newid deddfwriaeth' i wneud y model Ysgolion Rhithwir yn statudol gan y byddai'r 'buddion yn gwrthbwyso'r costau' yn y tymor hir, yn enwedig o ran taliadau ar gyfer plant â phrofiad o ofal sy'n cael eu lleoli 'y tu allan i'r sir'.

### Astudiaeth Achos 3: Abertawe

4.54 Llwyddodd Abertawe i sicrhau cyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir ar gyfer 2021-22 a 2022-23. Mae'r adran hon yn seiliedig ar ddata o'r ffurflen fonitro a gyflwynwyd gan awdurdod lleol Abertawe, a data ansoddol o gyfweliad gydag un rhanddeiliad a oedd yn ymwneud â'u model Ysgol Rithwir. Rydym yn nodi bod yr holl ddyfyniadau hirach wedi cael eu darparu yn y cyfweliad hwn.

#### Cefndir

4.55 Disgrifiwyd Abertawe fel awdurdod lleol a oedd wedi bod yn defnyddio dull 'tebyg i ysgolion rhithwir' ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal 'bump neu chwe blynedd yn ôl'. Roedd y dull hwn yn cynnwys Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Dirprwy Gydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Chydlynydd Cynlluniau Addysg Personol, a Chynorthwyydd Gweinyddol yn rheoli tîm o bump 'gweithiwr prosiect' a fyddai'n 'mynd allan i weithio gyda phlant â phrofiad o ofal yn yr ysgolion, gan gynnwys plant wedi'u mabwysiadu. Roedd yr awdurdod yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ariannu'r gweithwyr prosiect.

4.56 Fodd bynnag, nodwyd oherwydd 'newid i'r telerau ac amodau' a arweiniodd at 'newidiadau i gyllid', cafodd llawer o'r tîm ei wasgaru, gyda dim ond Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a Chydlynydd Cynlluniau Addysg Personol yn weddill yn ystod y cyfnod yn uniongyrchol cyn cynllun peilot y model Ysgol Rithwir.

#### Gweithredu'r model Ysgol Rithwir

Dewisodd awdurdod lleol Abertawe i ddefnyddio cyllid y model Ysgol Rithwir i gyflwyno system feddalwedd sy'n integreiddio gwybodaeth am blant â phrofiad o ofal a darpariaeth ADY mewn un system (wedi'i ddarparu gan y cwmni meddalwedd CACI sy'n darparu meddalwedd ar gyfer darpariaeth ADY yn Abertawe ar hyn o bryd). Mae integreiddio darpariaeth ADY yn 'briodol oherwydd bod gan dros hanner y disgyblion sy'n derbyn gofal anghenion dysgu ychwanegol'.

4.57 Nodwyd y byddai datblygiad y system yn galluogi'r canlynol:

> 'Byddai modd dadansoddi a rhannu data megis presenoldeb ac ymddygiad mewn amser real, ac yn bennaf, byddai'n bosibl monitro'r plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal yn fwy effeithiol, gan fod modd darparu porthi unrhyw ysgol. Bydd gan bob aelod o staff sy'n gweithio o fewn y model Ysgol Rithwir fynediad i'r system. Bydd hyn yn cynnwys staff sy'n gweithio mewn oddeutu 70

o ysgolion sirol lle mae plant sy'n derbyn gofal gan Abertawe wedi'u cofrestru, drwy borth diogel.'

4.58 Roedd modd cyfiawnhau'r angen am system newydd integredig gan fod awdurdod lleol Abertawe wedi bod yn defnyddio 'dwy system ar wahân' yn y gorffennol, un ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, ac un arall ar gyfer addysg, gyda data am blant â phrofiad o ofal yn cael ei dracio gan ddefnyddio taenlenni. Roedd y dull hwn yn gyfyngedig ac yn gallu achosi problemau gan ei fod yn dibynnu ar 'glywed ar lafar' ac ar berthynas effeithiol gyda rhanddeiliaid (byddai'r system hon yn parhau i gael ei defnyddio nes cyflwyno'r system ddata newydd ym mis Medi 2023). Er bod poblogaeth plant â phrofiad o ofal wedi lleihau o 'rhwng 550 a 600'… bump neu chwe blynedd yn ôl' i 'oddeutu 450 ar hyn o bryd', mae oddeutu '120 yn byw ac yn gweithio y tu allan i'r sir', ac fe amcangyfrifir bod 'hyd at 81' o blant â phrofiad o ofal wedi symud i'r ardal neu ar fin gwneud hynny. Mynegodd y cyfwelai bryderon gyda'r system flaenorol:

> 'Nid oedd yn ymddangos bod ffordd addas o'u tracio... dim ond gydag un system yr oeddem ni'n gallu gweithio yn ein hawdurdod lleol'.

O ganlyniad, roedd natur symudol y boblogaeth yn golygu nad oedd data yn cael ei ddiweddaru, gan achosi 'problem sylweddol pan oeddent yn symud draw... o un system i system arall.'

4.59 Am y rhesymau hyn, penderfynwyd defnyddio cyllid y model Ysgol Rithwir i gyflwyno system TG gyda'r nod o oresgyn trafferthion o'r fath. Er enghraifft, y gobaith yw y bydd y system newydd yn galluogi mwy nag un asiantaeth sy'n rhyngweithio gyda phlant â phrofiad o ofal i fewnbynnu data drwy byrth sy'n cysylltu gydag un system gynhwysfawr gan alluogi gwybodaeth i gael ei throsglwyddo'n effeithiol. Bydd hyn yn ein 'helpu i dracio'r plant hynny'n effeithiol', gyda hysbysiadau ar y system pan fo plentyn yn cael ei symud. Bydd hefyd yn 'ffordd hawdd' o ddatblygu Cynlluniau Addysg Personol ar gyfer plant â phrofiad o ofal, yn ogystal â galluogi'r awdurdod i gadw golwg mwy effeithiol ar bresenoldeb yn yr ysgol ac ymddygiad.

4.60 Yn awdurdod lleol Abertawe, roedd natur unigol bosibl y cyllid ar gyfer y model Ysgol Rithwir yn ffactor allweddol yn y penderfyniad i fuddsoddi'r cyllid i ddatblygu a gweithredu meddalwedd. Nodwyd y byddai buddsoddi cyllid y model Ysgol Rithwir mewn meddalwedd yn 'darparu system hirhoedlog a chynaliadwy a fyddai'n rhoi'r

canlyniadau gorau'n gyson'. Mae'r system newydd yn cael ei hystyried yn 'ddatrysiad hirdymor' i'r cwestiwn o gefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg yn Abertawe.

4.61 Yn ystod blwyddyn gyntaf y cyllid ar gyfer y model Ysgol Rithwir (2021-22), defnyddiodd awdurdod lleol Abertawe gyllid y cynllun peilot i gwmpasu a datblygu system feddalwedd newydd ar gyfer plant â phrofiad o ofal. Mae data monitro yn dangos bod cyllid wedi cael ei wario ar wahanol gamau o ddatblygu a phrofi meddalwedd, a hyfforddiant ar gyfer gweinyddwr a defnyddwyr. Fodd bynnag, nododd cyfweleion nad oedd modd i'r prosiect ddechrau tan fis Ionawr 2022 gan nad oedd y cyllid wedi cyrraedd, a bod y ffocws wedi bod ar archwiliad Estyn. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gwaith datblygu yn yr ail flwyddyn, a chymerodd y gwaith datblygu oddeutu 18 mis gyda'i gilydd.

4.62 Yn ystod ail flwyddyn y cynllun peilot (2022-23), defnyddiodd awdurdod lleol Abertawe gyllid y peilot i gyflwyno a chynnal y feddalwedd. Mae'r awdurdod lleol wedi derbyn dyfynbris ar gyfer 'hyfforddiant angenrheidiol i ysgolion y tu allan i ardal yr awdurdod lleol' i'w galluogi i ddefnyddio'r system newydd yn effeithlon. Yr allbwn mwyaf oedd ar gyfer gwrthbwyso costau staffio o ganlyniad i ymrwymiadau rheoli prosiect.

4.63 I gloi, pwrpas cyflwyno'r feddalwedd CACI Impulse yn awdurdod lleol Abertawe oedd symleiddio effeithlonrwydd y system, gyda'r nod o alluogi staff i dracio cynnydd ac anghenion plant â phrofiad o ofal, monitro data perthnasol, a chreu Cynlluniau Addysg Personol. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu 'ail lansio'r' [model] Ysgol Rithwir o fis Medi, gyda cham nesaf ei ddatblygiad yn 'edrych ar y prosesau o fewn system TG yr ysgol rithwir a dechrau hyfforddi ein staff a'n hathrawon'. Bydd strwythur cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg o ddydd i ddydd yn aros yr un fath i bob pwrpas, gyda'r feddalwedd newydd yn cael ei chyflwyno fel rhan o waith ail-frandio ar gyfer y model Ysgol Rithwir at y dyfodol.

**Effeithiau'r Model Ysgol Rithwir**

4.64 O ystyried nad yw'r system Ysgol Rithwir newydd wedi'i chyflwyno'n ymarferol yn awdurdod lleol Abertawe hyd yma, mae'r llwyddiannau ar hyn o bryd yn ymwneud â'r broses ddatblygu. Er enghraifft, mae'r 'mân anawsterau' yn y system bellach wedi'u datrys, ynghyd â phroblem yn ymwneud â 'phrawf dilysu dau gam' i staff. Llwyddiant allweddol arall oedd cyflwyno 'proses sicrhau ansawdd Cynlluniau

Addysg Personol’. Gall y system newydd gynhyrchu Cynllun Addysg Personol electronig sy’n ‘cymryd llawer llai o amser i staff ac athrawon i’w cwblhau’ ac mae’n ‘llawer llai amwys’. Gellir wedyn asesu’r rhain yn haws o ran ansawdd a ‘llais y disgybl’. Mae’r defnydd o lais y disgybl yn y broses Cynllun Addysg Personol wedi bod yn llwyddiant arall a nodwyd. Yn dilyn adborth ‘ysgubol’ gan ddisgyblion eu bod eisiau eu ‘Cynllun Addysg Personol eu hunain’, cyflwynwyd adnodd ‘MyPEP’, sef dogfen Cynllun Addysg Personol ar un dudalen y mae dysgwyr yn gallu ei haddasu ac ychwanegu ati.

4.65 Fel y trafodwyd, nid yw’r system rithwir newydd wedi cael ei gweithredu’n ymarferol hyd yma, felly nid oes modd mesur effeithiau’r system newydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y cyfwelai o awdurdod lleol Abertawe yn rhagweld y byddai’r system integredig newydd yn gallu mesur nifer o ffactorau’n ymwneud ag ymgysylltiad disgyblion, gan gynnwys presenoldeb, cyfraddau gwahardd, data rheoli symud, ffurflenni Cynllun Addysg Personol, data cyrhaeddiad, a monitro atebion i gwestiynau ‘yr hyn sy’n bwysig’[2], gan alluogi llais y dysgwr o fewn y broses.

**Rhwystrau rhag gweithredu**

4.66 Y rhwystrau mwyaf sylweddol a nodwyd gan y cyfranogwr o awdurdod lleol Abertawe oedd y costau parhaus ar gyfer dyfodol y system. Er enghraifft, er mwyn gweithredu’r system yn unol â’r bwriad ym mis Medi 2023, byddai angen arian er mwyn ‘sicrhau hyfforddiant digonol ac amserol’ i staff ar y system newydd, ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer ‘gweithdai teithiol’ i wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, byddai’r treuliau hyn yn gyfyngedig i’r cyfnod gweithredu yn 2023-24, er y gallai costau hyfforddiant pellach godi yn y dyfodol. O ran costau parhaus, mae angen costau cynnal a chadw bob blwyddyn, er y nodwyd y byddai modd i’r awdurdod lleol ‘amsugno’r costau’n ganolog’.

[2] Mae’r datganiadau ‘yr hyn sy’n bwysig’ yn set o ganllawiau sy’n nodi’r wybodaeth, y sgiliau a’r nodweddion hanfodol y dylai pob plenty yng Nghymru eu datblygu erbyn diwedd pob cyfnod allweddol. Maen nhw’n rhan o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, sy’n darparu trosolwg eang o’r cwricwlwm y mae gan ddisgyblion yng Nghymru’r hawl ei astudio. Mae’r datganiadau 'yr hyn sy’n bwysig yn' cwmpasu chwe maes dysgu a phrofiad ac yn cefnogi ysgolion i gynllunio a datblygu’r cwricwlwm. Gweler Cod Yr Hyn Sy’n Bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru.

### Dyfodol y Model Ysgol Rithwir

4.67 Mae swyddogion o awdurdod lleol Abertawe yn bwriadu cynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau plant a theuluoedd, fforwm rhieni/gofalwyr, disgyblion a llywodraethwyr i 'gefnogi'r broses o ymwreiddio ethos yr Ysgol Rithiwr'.

4.68 Roedd y cyfwelai o awdurdod lleol Abertawe o blaid y model Ysgol Rithwir yn dod yn ofyniad statudol i awdurdodau yng Nghymru, gyda chyllid rheolaidd yn cael ei ddarparu. Er y nodwyd y byddai gan bob awdurdod lleol ei ddull ei hun, 'byddai cael rhyw fath o ofyniad sylfaenol' ar gyfer defnyddio'r cyllid 'o fudd'. Felly, cyfres o ofynion sylfaenol ar gyfer y model Ysgol Rithwir gyda'r hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau lleol yw'r dull a ffefrir ganddynt. Nododd y cyfwelai hefyd y byddai'n dymuno gweld cyllid penodol i dargedu dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu ac sydd mewn gofal fel rhan o fodel Ysgol Rithwir, yn hytrach na ffocws ar gyllid Grant Datblygu Disgyblion yn unig yn seiliedig ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Yn dilyn y pwynt hwn, nodwyd dymuniad i lefelau cyllid Grant Datblygu Disgyblion Cymru gyfateb â lefelau cyllid y Premiwm Disgyblion yn Lloegr, gan gyfeirio at enghreifftiau o gwynion gan rieni a gofalwyr o Loegr nad oeddent yn gallu hawlio cyllid am blant a fabwysiadwyd. Cafwyd dadl y byddai cyllid penodol yn galluogi ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer pob plentyn â phrofiad o ofal.

4.69 Cafwyd sylw y byddai'n ddymunol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio 'un system TG safonol' ar gyfer plant ADY a phlant â phrofiad o ofal 'lle gallai pob awdurdod lleol siarad gyda'i gilydd' a rhannu data yn ymwneud â phlant â phrofiad o ofal er mwyn hwyluso'r gwaith.

### Astudiaeth Achos 4: Caerdydd

4.70 Mae Caerdydd yn enghraifft o awdurdod lleol sydd yn y flwyddyn gyntaf o ddatblygu dull Ysgol Rithwir, ar ôl derbyn cyllid y flwyddyn gyntaf yn 2022-23. Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar ddata o'r ffurflen fonitro a ddarparwyd gan awdurdod lleol Caerdydd, a data ansoddol o gyfweliad gydag un rhanddeiliad allweddol sy'n rhan o'u model Ysgol Rithwir. Rydym yn nodi bod yr holl ddyfyniadau hirach wedi cael eu darparu yn y cyfweliad hwn.

**Cefndir**

4.71 Cyn cynllun peilot y model Ysgol Rithwir, roedd gan awdurdod lleol Caerdydd ‘dîm Cydgysylltwyr Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal eisoes ar waith’ a oedd yn darparu cymorth i 1000 o blant â phrofiad o ofal o oedran ysgol statudol. Roedd y tîm hwn yn cael ei arwain gan Reolwr Gweithredol ar gyfer Grwpiau Allweddol (gydag un o’r rhain ar gyfer plant â phrofiad o ofal) a Chydgysylltydd Addysg Plant sy’n Derbyn Gofal. Yn dilyn ymddeoliad yr aelodau staff a fu’n cyflawni’r rolau hyn, crëwyd rôl Pennaeth Ysgol Rithwir i gyflawni’r dyletswyddau hyn pan oedd yr awdurdod lleol yn ymgeisio am gyllid cyfnod peilot yr Ysgol Rithwir. Mae Pennaeth yr Ysgol Rithwir wedi bod yn ei swydd ers 17 Ebrill 2023. Mae gweddill y tîm yn parhau'r un fath, gan gynnwys Rheolwr Prosiect, Mentor Dysgu, rôl Cymorth Busnes ac Athro Cynhwysiant Arbenigol sy’n gyfrifol am gynlluniau datblygu unigol ar gyfer plant â phrofiad o ofal.

**Gweithredu’r Model Ysgol Rithwir**

4.72 Yn dilyn ei benodiad, mae Pennaeth yr Ysgol Rithwir wedi cynnal gweithgareddau cwmpasu i ddysgu am arfer dda gan Ysgolion Rhithwir mewn ardaloedd eraill yn y DU. Er enghraifft, cynhaliwyd cyfarfod gyda Phennaeth Ysgol Rithwir i Lewisham yn Lloegr, a gyda chynrychiolwyr o Ganolfan Ragoriaeth mewn Gofal a Diogelu Plant yn yr Alban i gasglu syniadau am wahanol agweddau ar arferion model Ysgol Rithwir a fyddai fwyaf addas ar gyfer awdurdod lleol Caerdydd. Wrth adlewyrchu ar y trafodaethau hyn, mae’r gwahanol brofiadau yn Lloegr a’r Alban:

> ‘wedi ein hannog i edrych ar ein sefyllfa o ran datblygu’r [Ysgol Rithwir] yng Nghaerdydd, ac i sylweddoli mai tyfu’n organig fyddai’r model gorau.’

Felly, mae Caerdydd wedi parhau i ddefnyddio ei strwythur presennol ar gyfer plant â phrofiad o ofal fel sylfaen ar gyfer yr Ysgol Rithwir, gan ddatblygu’r system yn raddol i lunio dull integredig dros amser.

4.73 Mae cyllid y flwyddyn gyntaf wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi’r gwaith o greu’r model Ysgol Rithwir yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y cyllid yn ddigonol, gan fod awdurdod lleol Caerdydd wedi ‘ymrwymo cyllid o gyllideb 2022-23’ i wrthbwyso’r costau:

> ‘Nid yw’r cyllid a ddyrannwyd i’r cynllun peilot yn ddigon i dalu cyflog llawn na chostau eraill megis TG ac adnoddau’.

Daw'r 'gyllideb weithredol' ar gyfer cefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg yn 'uniongyrchol o'r Grant Datblygu Disgyblion'. Adroddwyd nad oedd cyllid cynllun peilot y model Ysgol Rithwir yn bodloni gofynion yr awdurdod lleol er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu model. Ceir tystiolaeth bod y mater hwn yn cyfyngu ar ddatblygiad pellach.

> 'Mae gen i syniadau yr hoffwn eu gweld o fewn strwythur, mewn sefydliad, a'r hyn y gallwn ei gynnig, ond... nid oes modd symud ymlaen gyda hynny nes bydd y cyllid wedi'i sicrhau.'

Mae hyn yn awgrymu y gallai rhai o'r cyfyngiadau sy'n atal ehangiad y model yng Nghaerdydd godi pe byddai'r cyllid yn cael ei gynnig yn flynyddol.

**Llwyddiannau ac Effeithiau'r Model Ysgol Rithwir**

4.74 Rhai o'r llwyddiannau mwyaf hyd yn hyn yw'r cyfleoedd i'r Pennaeth Ysgol Rithwir yn awdurdod lleol Caerdydd ymweld ag ysgolion a meithrin perthynas gyda'r plant â phrofiad o ofal eu hunain, er mwyn deall yr hyn maen nhw ei eisiau… i fod yn eiriolwyr ar eu rhan. Mae'r ymagwedd bersonol hon yn pwysleisio'r bwriad i ddefnyddio llais y disgybl yn eu model Ysgol Rithwir. Defnyddiwyd llais y disgybl yn ehangach drwy gyfleoedd i blant â phrofiad o ofal gyfarfod â'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol lle cawsant y cyfle i:

> 'ddatblygu eu perthynas, magu hyder ac ymddiried yn yr oedolion, gan eu galluogi i rannu eu hofnau a'u pryderon yn ogystal â dathlu llwyddiannau a chyraeddiadau.'

Mae canlyniadau'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu defnyddio i lywio'r agenda ar gyfer datblygiad eu model Ysgol Rithwir yn y dyfodol.

4.75 Ceir hefyd enghreifftiau o well cydweithio gan arwain at well dealltwriaeth rhwng gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Ysgol Rithwir wedi rhwydweithio'n eang o fewn y Timau Gwasanaethau Plant a Diogelu, gan helpu i wella perthnasau a chyfathrebu rhwng grwpiau perthnasol sy'n cefnogi plant â phrofiad o ofal. Sefydlwyd 'sianel benodol ar Teams i staff ysgolion, Addysg a gwasanaethau Plant anfon negeseuon' ynghyd â 'chyfeiriad e-bost uniongyrchol' i hwyluso'r cyfathrebu rhwng staff yr Ysgol Rithwir a rhanddeiliaid allweddol. Mae meysydd allweddol ar gyfer perfformiad hefyd wedi cael eu nodi i staff mewn perthynas â phlant â phrofiad o ofal, gan gynnwys y 'broses fynediad' (a fydd yn helpu i sicrhau bod y 'weithdrefn fynediad yn cael ei chyflawni'n brydlon' i osgoi 'unrhyw oedi wrth gael [plant â

phrofiad o ofal] i mewn i addysg', a'r 'Diwygiad ADY a Chynlluniau Datblygu Unigol dan ofal yr Awdurdodau Lleol'.

4.76 O ystyried dyddiau cynnar yn natblygiad y model Ysgol Rithwir yn awdurdod lleol Caerdydd, mae'r 'effaith hefyd yn ei ddyddiau cynnar'. Fodd bynnag, o ran mesur effaith yn y dyfodol, nodwyd y byddai 'data rhifol yn ymwneud â chynnydd a chyrhaeddiad' yn dal i gael ei ddefnyddio, megis cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb. Fodd bynnag, cafwyd cydnabyddiaeth fod yr eirfa a ddefnyddir wrth drafod cynnydd yn newid o ganlyniad i'r Cwricwlwm i Gymru, a'i fod yn canolbwyntio mwy ar bobl ac ar yr unigolyn. Nodwyd eu bod yn gefnogol o ddefnyddio 'astudiaethau achos' fel ffordd o fesur effaith. Er enghraifft, mae'r Ysgol Rithwir yn gweithio i ddatblygu cydweithrediad da gyda gwasanaethau eraill o fewn Addysg drwy'r gwaith a chysylltiadau gydag Addewid Caerdydd[3]. Mae John Lewis wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Addewid Caerdydd i gyflwyno eu cynllun cenedlaethol 'Building Happier Futures' yn eu siop yng Nghaerdydd. Mae'r rhaglen yn ceisio adnabod a recriwtio pobl ifanc talentog sydd â phrofiad o ofal i fod yn Bartneriaid yn eu busnes. Cafodd pum person ifanc eu dewis a'u cefnogi i fanteisio ar y cyfle hwn gan Awdurdod Lleol Caerdydd, ac fe wnaethant lwyddo i gwblhau eu profiad gwaith o dri diwrnod yn y siop. Yna, cafodd y bobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn proses gyfweld gyda chymorth. Cwblhaodd awdurdod lleol Caerdydd astudiaeth achos i archwilio effaith y profiad gwaith hwn ar y bobl ifanc, megis y sgiliau a ddysgwyd ganddynt a'u dyheadau gyrfa ar ôl hynny. Mae defnyddio astudiaethau achos yn y modd hwn yn galluogi llais y dysgwr i ddylanwadu ymhellach ar ganlyniadau fel rhan o'r system Ysgol Rithwir.

[3] Mae Addewid Caerdydd yn gynghrair o gyflogwyr ar draws y ddinas o sectorau twf yn yr economi, Addysg Uwch, Addysg Bellach, y trydydd sector ac ysgolion. Eu nod yw gweithio mewn partneriaeth i wella uchelgeisiau, datblygu cyfleoedd a darparu sgiliau i gefnogi disgyblion, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd dan anfantais, i gyflawni eu potensial a chyfrannu at dwf economaidd y ddinas.

**Rhwystrau rhag gweithredu**

4.77 Fel y trafodwyd uchod, roedd y cyfwelai o awdurdod lleol Caerdydd yn nodi bod cyllid yn ‘rhwystr pendant’, ac adroddwyd ei fod yn cyfyngu ar eu capasiti gweithredol i fynd ati’n rhagweithiol i gefnogi plant â phrofiad o ofal mewn addysg, gan nodi ‘nid yw’n rhoi capasiti angenrheidiol i ni’. Felly, nodwyd nad yw cyllid y cynllun peilot yn ddigonol i’r awdurdod allu staffio’r Ysgol Rithwir i’r lefelau gofynnol i gefnogi plant â phrofiad o ofal:

> ‘Trwy fynd allan i ysgolion, gallwch ddod i ddeall yr hyn sydd ei angen ar blant a phobl ifanc, a’r hyn sydd ei angen ar ysgolion. Rydw i’n hoff iawn o... gael fy staff allan mewn ysgolion... ond nid yw hynny’n bosibl ar hyn o bryd gan nad yw’r capasiti ar gael o fewn y tîm’.

4.78 Dywedodd y cyfranogwr y dylai lefel cyllid y model Ysgol Rithwir gyfateb gyda gofynion yr awdurdod penodol, ‘mae’n ymwneud â chydnabod yr hyn sydd wirioneddol ei angen oherwydd proffil yr awdurdod’, yn enwedig nifer uchel y boblogaeth o blant â phrofiad o ofal yng Nghaerdydd.

**Dyfodol y Model Ysgol Rithwir**

4.79 Roedd y cyfwelai o awdurdod lleol Caerdydd yn credu y bydd y model Ysgol Rithwir yn ‘fodel cryf iawn’ a fydd yn parhau i fod o fudd i blant â phrofiad o ofal yn yr awdurdod lleol, ac roedd yn dymuno i’r model fod yn rhywbeth parhaol o ystyried yr ‘amser a’r gwaith sydd wedi cael ei wneud i’w sefydlu’. Nododd y dylid gwneud ‘elfennau’ penodol o’r model Ysgol Rithwir yn ‘gwbl glir’, gan nodi dyhead am elfen o arferion safonol, ond gyda rhywfaint o ‘hyblygrwydd’ o hyd i’w addasu i amgylchiadau lleol. Mynegwyd yr awydd am ‘fwy o ymgysylltiad’ gan Lywodraeth Cymru, fel y gall Llywodraeth Cymru gael gwell dealltwriaeth o’r ‘hyn sydd ei angen mewn gwirionedd’ ar y model Ysgol Rithwir fel rhan o unrhyw drefniant yn y dyfodol.

4.80 Roedd y cyfranogwr yn mynegi pryder ynghylch lefelau cyllid, gan nodi ‘nad yw’r cyllid sydd wedi dod gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol’ i gefnogi’r model, a bod awdurdod lleol Caerdydd wedi gorfod cefnogi’r model yn ariannol eu hunain. Byddai angen mwy o gyllid sylweddol a chyson i gael effaith bellach ar ganlyniadau plant â phrofiad o ofal.

4.81 Nododd y cyfwelai hefyd bod awydd cryf i gael ‘cymdeithas genedlaethol’ o aelodau Ysgolion Rhithwir yng Nghymru, yn debyg i’r grŵp CELCIS yn yr Alban. Cafwyd

dadl y byddai hyn yn ‘dod â phobl at ei gilydd’ i fynd i’r afael â’r ‘diffyg cysondeb mewn arfer dda ar draws pob awdurdod lleol’, fel y nodwyd gan Foster et al. (2021).

## Cyfeiriadau


Foster, R; Beninger, K; Svanaes, S; Downing, C. (2021). Dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. Available at: Dull integredig o wella deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | LLYW.CYMRU

King, N., Horrocks, C., & Brooks, J. (2019). *Interviews in Qualitative Research.* 2il Argraffiad. London: Sage Publications Ltd.

Macdonald, A. (2020). *Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru*. Ar gael yma: Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: adroddiad | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru (2021). Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant: Adroddiad Gwaddol. Ar gael yma: Y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant: adroddiad gwaddol | LLYW.CYMRU

## Atodiad A: Canllaw ar gyfer Cyfweld

**Model Ysgol Rithwir ar gyfer plant â phrofiad o ofal: Canllaw Cyfweld**

**Cefndir**

- Beth yw eich rôl o fewn yr awdurdod lleol a'r cynllun peilot Ysgol Rithwir?
    - Ers faint rydych chi wedi bod yn gweithio ar y cynllun peilot?
- Sut yr oeddech chi'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg cyn y cynllun peilot?
    - Sut cafodd hyn ei strwythuro?
    - Sut cafodd hyn ei staffio?
    - Sut cafodd hyn ei ariannu?
    - Sut y gwnaethoch chi fesur effeithiau?
    - Pa effeithiau a welwyd?

**Cyllid Ysgolion Rhithwir**

- Sut yr ydych chi wedi defnyddio cyllid cynllun peilot yr Ysgol Rithwir?
    - Sut cafodd yr arian ei wario ar draws y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yn y drefn honno? (e.e. gweithgareddau cwmpasu, systemau newydd)
    - Sut mae eich dull presennol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal wedi datblygu neu wella gan ddefnyddio cyllid y cynllun peilot?
    - A yw cyllid y cyfnod peilot wedi cael ei ddefnyddio i benodi Pennaeth Ysgol Rithwir?
        - A yw rôl bresennol wedi cael ei haddasu i hwyluso rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir?
- Beth sydd wedi cael ei gyflawni, ei ddatblygu a/neu ei weithredu o ganlyniad i gyllid y cyfnod peilot (e.e. datblygu polisi, newid systemau, rhannu data)?
    - Beth mae'r Penaethiaid Ysgolion Rhithwir wedi'i gyflawni, ei ddatblygu a/neu ei weithredu fel rhan o'u rôl?
        - Sut mae rôl y Pennaeth Ysgol Rithwir yn rhyngweithio neu'n effeithio ar staff 'ar lawr gwlad'?
    - Sut mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i gynnwys pob person ifanc â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol?

- Beth oedd y prif ffactorau ar gyfer pennu sut y byddai cyllid y peilot yn cael ei ddefnyddio?

**Llwyddiannau a Rhwystrau'r Peilot**

- Beth oedd yn llwyddiannus yn ystod y peilot? Pam?
- Beth fyddai wedi gallu bod yn well yn ystod y cynllun peilot? Pam?
- Pa rwystrau a gafwyd yn ystod y cynllun peilot rhag cyflawni'r dull?
- A oes unrhyw fylchau mewn cymorth ar gyfer y dull Ysgol Rithwir?
    - Os felly, sut byddai modd datrys hyn? (e.e., arweiniad, hyfforddiant ac ati)

**Effeithiau Canfyddedig**

- Beth oedd yr effeithiau canfyddedig gan awdurdodau lleol o'u defnydd o gyllid y cynllun peilot?
    - Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i fesur effaith y cyllid?
    - Beth oedd effaith ganfyddedig cyllid y cynllun peilot ar blant sy'n derbyn gofal mewn addysg?
        - Cyrhaeddiad addysgol?
        - Presenoldeb yn yr ysgol?
        - Ymgysylltiad disgyblion ag addysg?
        - Lles disgyblion?
        - Galluogi llais y disgybl? Os felly, sut?
        - Rhannu data rhwng awdurdodau lleol? Os felly, a oes gennych enghreifftiau?
        - Rhannu arferion yn seiliedig ar dystiolaeth rhwng awdurdodau lleol? Os felly, a oes gennych enghreifftiau?
        - Mynediad i adnoddau arbenigol?
        - (Camau gweithredu?)

**Dyfodol y Model Ysgol Rithwir**

- A ydych chi'n ystyried Ysgolion Rhithwir yn ddull priodol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg?
    - Os felly, pa elfennau o'r dull yr hoffech chi eu cadw a/neu eu datblygu i ddarparu dull integredig?
        - Pa gymorth byddai ei angen er mwyn cyflawni hyn?

  - Os nad ydych yn ei ystyried yn ddull priodol, pa ddulliau eraill fyddai'n well gennych chi? Pam?
  - A hoffech chi i'r dull Ysgolion Rhithwir ddod yn ofyniad statudol? Pam/pam ddim?
    - Os felly, pa mor rhagnodol yr hoffech chi i'r dull fod? Pam?

**Sylwadau eraill**

- A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu ynghylch unrhyw beth a drafodwyd gennym?
- A oes unrhyw beth ar goll, neu rywbeth yr hoffech ei ychwanegu?